# Rhif: 2

| | |
| --- | --- |
| **Rhif y Cais:** | **C16/1164/16/MW** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **21/09/2016** |
| **Math o Gais:** | **Mwynau** |
| **Cymuned:** | **Llandygai** |
| **Ward:** | **Tregarth a Mynydd Llandygai** |
| **Cynnig:** | **Cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i benderfynu ar amodau o dan adolygiad cyfnodol – Cyfeirnod Caniatâd: C96A/0020/16/MW, C08A/0039/16/MW, C12/0874/16/MW, C15/1344/16/MW** |
| **Lleoliad:** | **Chwarel y Penrhyn, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL54 4YG** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad** | **AWDURDODI UWCH REOLWR Y GWASANAETH CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD A GWARCHOD Y CYHOEDD I BENDERFYNU AR Y CYNLLUN AMODAU O DAN DDIRPRWYAETH** |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Cais am Adolygiad o Safle Mwynau yw hwn o dan Adran 96 ac Atodlen 14 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 i gymeradwyo'r cynllun gwaith a'r rhestr o amodau cynllunio.

1.2 Bydd gofyn i'r pwyllgor cynllunio hefyd gymryd penderfyniad i ymestyn y Gorchymyn Cau a Chreu Llwybr Troed 2002 ar gyfer llwybrau cyhoeddus Rhifau 46 a 50 sy'n croesi ardal weithio'r chwarel.

**NID YW HWN YN GAIS AM GANIATÂD CYNLLUNIO**

1.3 Mae Deddf yr Amgylchedd 1995 yn gofyn i weithredwyr caniatadau mwynau gyflwyno cynlluniau ar gyfer Adolygiad o Ganiatadau Mwynau, sy'n wahanol i geisiadau cynllunio mewn sawl ffordd. Mae adolygiadau cyfnodol yn berthnasol i bob safle mwynau gan gynnwys y rhai nad oedd yn rhaid penderfynu amodau ar eu cyfer o dan Ddeddf Cynllunio Iawndal 1991 na Deddf yr Amgylchedd 1995. Yn yr achosion hynny, dyddiad yr adolygiad cyntaf yw 15 mlynedd ar ôl dyddiad y caniatâd mwynau sylweddol mwyaf diweddar ar gyfer y safle. O dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gall awdurdodau cynllunio Mwynau un ai gymeradwyo'r cynllun o amodau a gyflwynir neu benderfynu ar gynllun gwahanol o amodau. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r awdurdod cynllunio mwynau benderfynu ar yr amodau o fewn cyfnod penodol. Os na phenderfynir ar y cyflwyniad o fewn y cyfnod hwnnw (neu ei newid drwy gytundeb) mae'r cynllun o amodau'n cael ei gymeradwyo'n awtomatig.

1.4 Mae'r cynigion adolygu'n cynnwys rhestr o 50 o amodau cynllunio sy'n berthnasol i reolaeth cynllunio berthnasol ar gyfer y safle. Talwyd sylw i faterion yn yr adroddiad hwn ynghylch effeithiau amgylcheddol, mwynderau, diwylliannol a thirwedd y gwaith, gan gynnwys cynigion ar gyfer adfer. Trafodwyd ymhellach â'r ymgeisydd restr ddiwygiedig o amodau ac fe'i hatodir wrth yr adroddiad hwn.

1.5 Diben yr Adolygiad Cyfnodol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yw sicrhau nad yw amodau'n mynd yn amherthnasol a rhoi cyfle i ymateb i safonau a gofynion sydd newydd eu cyflwyno. Cyfrifoldeb y gweithredydd mwynau yw cyflwyno, i gael ei gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio mwynau, gynllun gwaith manwl a rhestr o amodau cynllunio sy'n dangos sut y gellir gweithredu'r datblygiad mewn ffordd amgylcheddol dderbyniol a chadw at safonau ac ymarferion gwaith amgylcheddol, modern. Bydd y rhestr o amodau newydd yn berthnasol i'r cyfan o'r safle sy'n cael ei hadolygu ac yn cael gwared ar unrhyw amwysterau rhwng gwahanol ganiatadau cynllunio.

1.6 Ffiniau safle'r cais yw'r ardal a oedd wedi'i chynnwys yn y caniatâd cyffredinol fis Ionawr 2000 a hefyd y ceisiadau dilynol ar gyfer datblygu mwynau i resymoli ac ymestyn gwaith y chwarel yn ogystal â defnyddio'r rwbel yn yr hen domeni llechi. Mae'r Adolygiad Cyfnodol yn cynnwys y caniatadau canlynol ar gyfer mwynau a nodwyd sydd ar safle'r cais:

- Caniatâd Cynllunio C96A/0020/16MW Dyddiedig 19 Ionawr 2000 – Ymestyn Chwarel Lechi, Gwaredu Gwastraff Mwynau, Adfer a Gwaith Cysylltiedig,
- Caniatâd Cais Cynllunio C08A/0039/16/MW Dyddiedig 9 Mehefin 2008 – Cais o dan Adran 73 (Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990) i Amrywio Amodau 5 a 20 o Ganiatâd Gais Cynllunio C08A/0020/16/MW, Cynlluniau Diwygiedig ar gyfer y Mannau Echdynnu (Rhan yn Ôl-Weithredol) a Chynllun Monitro Sŵn.
- Caniatâd Cais Cynllunio C12/0874/16/MW Dyddiedig 18 Rhagfyr 2012 - Estyniad ac Ailaliniad Arfaethedig o Waith Chwarel Lechi gyda Chynllun Adfer Cynyddol.
- Caniatâd Cais Cynllunio C15/1344/16/MW, a ganiatawyd gydag amodau fis Mehefin 2016 ar gyfer cais o dan Adran 73 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C04A/0519/16MW i ddal ati i weithio gan gynnwys symud deunydd o domen rwbel chwarel.

**Trosolwg o'r Cynigion yn yr Adolygiad Cyfnodol**

1.7 Mae mannau gweithio'r chwarel yn cynnwys lle mae'r peiriannau ar gyfer cynhyrchu llechi toi, slabiau llechi a llechi pensaernïol, mannau cynhyrchu a phrosesu agregau llechi, mannau cadw'r cynnyrch, swyddfa'r safle ac adeiladau atodol / pont bwyso ond hefyd yr adeiladau a'r strwythurau rhestredig a hanesyddol. Ac eithrio caniatâd penodol ar gyfer y siediau prosesu ym 1966 a chaniatâd mwy diweddar ar gyfer gorsaf trosglwyddo gwastraff, nid oes caniatâd cynllunio mwynau ar yr ardal brosesu ond yn hytrach mae'n cael ei ddiffinio fel tir atodol i chwarel at ddibenion Dosbarth B o Ran 19 i Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag, gall y broses adolygu gynnwys y tir chwarel atodol yn y rhestr amodau fel bod yr un rheolau amgylcheddol a chynigion adfer yn berthnasol iddo ag sydd ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle.

1.8 Bydd y safle'n cael ei gweithio gan ddefnyddio'r un dulliau ag ar hyn o bryd. Bydd y deunydd ar yr haen uchaf yn cael eu symud gan beiriannau llwytho a chario a bydd tarw dur yn ei osod yn ei le. Mae'r holltau a'r gwelyau yn Chwarel y Penrhyn, neu'r rhychau lle mae'r graig yn torri'n llechi unigol, bron yn fertigol ac yn gyfochrog â'r ffawtiau sy'n dangos lle mae'r llechi i'w cael a'r graig yn nes ymlaen yn cael ei thorri gan nifer o gymalau a ffawtiau llai. Bydd y garreg lechen wedi hindreulio a'r garreg galed yn cael eu chwalu drwy eu chwythu â ffrwydron ac yna'n cael eu symud gan beiriannau a'u gwaredu yn unol â chynllun adfer y safle. Ceisir cael cymaint o ddeunydd llechi â phosibl ar gyfer llechi toi neu lechi pensaernïol drwy chwalu cyn lleied ar y deunydd â phosibl, gan gynnwys defnyddio llifiau gwifren. Bydd y cerrig llechi'n cael eu cario i'w didoli, gyda'r cerrig anaddas yn cael eu rhoi ar y domen a'r deunydd gorau'n cael ei symud i'r man prosesu.

1.9 Mae'r cynigion yn yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau'n cynnwys cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer y graig sy'n dal ar ôl sy'n cynnwys datblygu'r chwarel mewn cyfres o bonciau yn rhedeg i'r de-orllewin, sy'n cynnwys ardal yr estyniad yn 2012. Fodd bynnag, nid yw'r cynigion ar gyfer gweithio'r wyneb de-orllewin o dan C08A/0039/16/MW yn ymddangos yn yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau na phociau uchaf y 'garreg lwyd' ar wyneb ochr dde'r chwarel bresennol ger terfyn y Parc Cenedlaethol. Dyma lle bu cwymp yn 2012 a lle mae'r cynigion datblygu'n cynnwys pentyrru rwbel llechi i gynnal wyneb y chwarel.

1.10 Mae tynnu deunydd o'r tomeni rwbel yn ychwanegol at y gwaith arferol o gyflenwi deunyddiau wrth gynhyrchu llechi toi ac mae'r deunydd hwnnw'n cael ei farchnata fel agregau eilaidd. Byddai gwaredu deunydd o'r hen domeni rwbel, yn unol â'r cais am adnewyddu caniatâd yn 2016, yn rhoi rhagor o le i ail ffurfio ac adfer y llwybr cyhoeddus yn unol â'r gorchymyn cau a chreu llwybr cyhoeddus 2002.

1.11 Mae'r drefn dipio'n rhan o strategaeth adfer 2014 i sefydlu llystyfiant gweundir ac i ffurfio lle ar gyfer y llwybrau cyhoeddus 46 a 50 sydd wedi eu dargyfeirio, ond mae hefyd yn rhoi cymaint o le â phosibl i dipio o fewn y chwarel ei hunan ac i ail gyfeirio'r ffordd tuag ato. Mae'r gwaith o adfer y tomeni ar ochr gogledd-orllewin y chwarel bron wedi'i orffen ac mae'n cynnwys llawer o strwythurau archeolegol. Bydd y terfyn allanol, hanesyddol felly yn aros fel y mae a bydd y gwaith adfer yn annog llystyfiant naturiol i aildyfu. Bydd y drefn dipio'n cael ei chyfyngu i'r mannau sy'n cael eu gweithio'n barod ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw un o'r mannau cyfagos sydd o ddiddordeb ecolegol. Awgryma'r arolygon Cynefinoedd a Rhywogaethau fod y tomeni a'r tir a adferir yn weundir sy'n ddigon amrywiol i gynnig cynefinoedd da i adar, mamaliaid bychan ac ymlusgiaid.

1.12 Mae'r ffrwd ddal wedi'i chreu yn unol â gofynion caniatâd ail-alinio 2012 er mwyn cynnal amodau dŵr Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri sydd gyfagos. Er fod y gwaith i bob pwrpas yn gyflawn, mae angen rhagor o waith adfer i gael gwared ar effeithiau sgwrio. Mae cynigion yr adolygiad yn cynnwys monitro mannau penodol yn Ardal Cadwraeth Arbennig Gwaun Gynfi a hefyd lun-fonitro i ganfod sut mae'r ffrwd yn gweithio yn ogystal â threfn o fonitro dŵr daear fel rhan o'r amodau cynllunio. Bydd yn rhaid ystyried ar wahân unrhyw effeithiau uniongyrchol neu

anuniongyrchol ar ddynodiadau amgylcheddol Ewropeaidd fel rhan o'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn unol â Rheoliad 61 o'r Rheoliadau Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010.

1.13 Talwyd sylw i effeithiau ar fwynderau trigiannol yn yr amodau cynllunio gan gynnwys monitro dirgryniadau chwythu, amserau chwythu, monitro lefel llwch a chynnal gorsaf fonitro feteorolegol, monitro sŵn a lefelau sŵn newydd ac oriau gweithio.

1.14 Mae yna safleoedd o bwysigrwydd archeolegol yn ac o amgylch y chwarel a bydd yn rhaid cytuno ar gynllun lliniaru yn unol â'r amodau a / neu baratoi Cynllun Rheoli Cadwraethol i gynnwys yr adeiladau a'r strwythurau presennol sydd ar dir cyfagos i'r chwarel. Bydd yn rhaid cytuno ar drefn reoli ar gyfer yr ardal iawndal ecolegol i gadw nodweddion y rhostir gwlyb a hefyd rhag difrodi neu effeithio ar gyfanrwydd y nodweddion archeolegol sy'n bresennol.

1.15 Mae'r cais yn cynnwys asesiad o effeithiau ar y dirwedd gan gynnwys yr effeithiau ar ffiniau'r Parc Cenedlaethol.

1.16 Mae'r cais o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar gyfer penderfynu ar amodau o dan Adolygiad Cyfnodol yn dod o dan y categori ar gyfer datblygu yn Atodlen 1 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2016 sy'n datgan fod yn rhaid cyflwyno Asesiad Amgylcheddol.

## 2. Ystyriaethau eraill

Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 3.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ar geisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai fod ystyriaethau perthnasol yn datgan fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol a'r Cynllun Datblygu Unedol 2001-2016.

2.2 Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mae'n ofynnol i'r Cyngor ymgymryd â datblygu cynaliadwy yn ogystal â chymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion datblygu cynaliadwy (neu lesiant). Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015, ac wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Ystyrir na fyddai unrhyw effaith sylweddol nac annerbyniol ar gyflawni'r amcanion llesiant o ganlyniad i'r argymhelliad arfaethedig.

2.3 **Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd 2009:**

- POLISI STRATEGOL 1 – **Cymryd ymagwedd ragofalus**
- POLISI STRATEGOL 2 **- Yr Amgylchedd Naturiol**
- POLISI STRATEGOL 3 **- Treftadaeth Adeiledig a Hanesyddol**
- POLISI STRATEGOL 7 – **Mwynau**
- POLISI STRATEGOL 16 – **Cyflogaeth**
- POLISI A1 **- Asesiadau Amgylcheddol neu Asesiadau o Effeithiau Eraill**. Sicrhau bod gwybodaeth ddigonol yn cael ei darparu gyda'r cais cynllunio ynglŷn ag unrhyw effeithiau amgylcheddol neu effeithiau sylweddol a thebygol eraill ar ffurf asesiad amgylcheddol neu asesiadau o effeithiau eraill.
- POLISI A2 - **Gwarchod Gwead Cymdeithasol, Ieithyddol a Diwylliannol Cymunedau**. Diogelu cydlyniad cymdeithasol, ieithyddol neu ddiwylliannol cymunedau rhag niwed arwyddocaol oherwydd maint, graddfa neu leoliad cynigion.
- POLISI A3 **- Egwyddor Ragofalus**. Gwrthod cynigion os oes unrhyw bosibilrwydd o ddifrod difrifol neu anwrthdroadwy i'r amgylchedd neu'r gymuned os na ellir dangos heb amheuaeth ar ddiwedd asesiad perthnasol o'r effeithiau y gellir negyddu neu liniaru'r effaith.
- POLISI B7 – **Safleoedd o Bwysigrwydd Archeolegol**. Gwrthodir cynigion fydd yn difrodi neu ddifetha gweddillion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (boed yn rhai cofrestredig

ai peidio) neu eu gosodiad. Gwrthodir datblygiad fydd yn effeithio ar olion archeolegol eraill oni bai bod yr angen am y datblygiad yn drech nag arwyddocâd yr olion archeolegol.

- POLISI B8 – **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn a Môn (AHNE)**. Diogelu, cynnal a gwella cymeriad yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i warchod nodweddion cydnabyddedig y safle.
- POLISI B10 – **Amddiffyn a Chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd**. Gwarchod a chyfoethogi Ardaloedd Gwarchod y Dirwedd drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sydd yn anelu i osgoi niwed arwyddocaol i nodweddion cydnabyddedig.
- POLISI B12 - **Diogelu Tirweddau, Parciau a Gerddi Hanesyddol**. Diogelu tirweddau, parciau a gerddi o ddiddordeb hanesyddol arbennig yng Nghymru rhag datblygiadau a allai achosi difrod sylweddol i'w cymeriad, eu hedrychiad neu eu lleoliad.
- POLISI B14 - **Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri**. Gwarchod Cymeriad Tirlun Parc Cenedlaethol Eryri. Gwrthodir cynigion a fyddai'n cael effaith andwyol ar briodweddau a chymeriad arbennig Parc Cenedlaethol Eryri oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at reoli, cyfoethogi a gwarchod dynodiad y Parc.
- POLISI B15 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Rhyngwladol**. Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig safleoedd o'r fath.
- POLISI B16 – **Gwarchod Safleoedd Cadwraeth Natur o Bwysigrwydd Cenedlaethol**. Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i gyfanrwydd safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd cenedlaethol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at reoli, mwyhau a diogelu nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.
- POLISI B17 **- Gwarchod Safleoedd o Arwyddocâd Rhanbarthol neu Leol**. Gwrthod cynigion sy'n debygol o achosi niwed arwyddocaol i safleoedd o arwyddocâd rhanbarthol neu leol oni bai eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu i warchod, hyrwyddo a rheoli nodweddion cydnabyddedig y safleoedd.
- POLISI B18 - **Gwarchod a Gwella Safleoedd Daearegol/Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol (RIGS)**. Gwrthod cynigion sy'n debygol achosi difrod sylweddol i safleoedd daearegol/geomorffolegol pwysig rhanbarthol (RIGS) oni bai bod yr angen am y bwriad yn gorbwyso gwerth y safle.
- POLISI B23 – **Mwynderau**. Diogelu mwynderau'r ardal leol drwy sicrhau bod cynigion yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n anelu at warchod nodweddion cydnabyddedig a mwynderau'r ardal leol.
- POLISI B27 – **Cynlluniau Tirlunio**. Sicrhau fod cynigion a ganiateir yn ymgorffori tirweddu meddal/caled o safon uchel sy'n briodol ar gyfer y safle ac sy'n ystyried cyfres o ffactorau sy'n anelu i osgoi niwed i nodweddion cydnabyddedig.
- POLISI B29 – **Datblygiadau ar Diroedd dan Fygythiad Llifogydd**. Rheoli datblygiadau penodol ym mharth llifogydd C1 a C2 a'u cyfeirio tuag at dir addas ym mharth A oni bai y gellid cydymffurfio â chyfres o feini prawf sy'n berthnasol i nodweddion y safle a phwrpas y datblygiad.
- POLISI B32 - **Dŵr Wyneb**. Gwrthodir cynigion na fyddant yn cynnwys mesurau lleihau llifogydd neu fesurau lliniaru fydd yn arwain at ostwng cyfaint a graddfa'r dŵr wyneb fyddai'n cyrraedd ac yn llifo i afonydd a chyrsiau dŵr eraill.
- POLISI B33 – **Datblygiadau sy'n Creu Llygredd neu Boendod**. Gwarchod iechyd y cyhoedd, diogelwch mwynderau, neu ansawdd yr amgylchedd adeiledig neu naturiol o ganlyniad i lefelau uwch o lygredd.
- POLISI B34 – **Llygredd Golau a Goleuni.** Sicrhau nad yw cynigion yn amharu'n sylweddol ar amwynder defnydd tir cyfagos a'r amgylchedd.
- POLISI C9 - **Datblygu Mwynau Tu Allan i Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn**. Caniateir safleoedd i ddatblygu mwynau ar sail cyfres o feini prawf sy'n cynnwys yr

egwyddorion sy'n ymwneud â mwynderau'r trigolion lleol, yr effeithiau ar y dirwedd, manylion gweithredol a'r modd y gweithir y deunydd a gynhyrchir.

- POLISI C10 - **Cyfrannu tuag at y Cyflenwad Agregau**. Cadw mewn cof y polisi cenedlaethol cyfredol ar gynnal banc tir o fwynau agregau a'r canllaw perthnasol yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau NCTM (Cymru) 1: Agregau.
- POLISI C12 - **Cylchfeydd Rhagod**. Gwrthodir ceisiadau cynllunio i gloddio mwynau o fewn cylchfeydd rhagod a nodir ar y mapiau cynigion oni bai y gellir darparu cylchfeydd rhagod newydd sy'n adlewyrchu'r isafswm pellter y cyfeirir ato yn NCTM 1: Agregau.
- POLISI C14 - **Adfer ac Ôl-ofal**. Gwrthodir ceisiadau am weithfeydd mwynau oni bai bod cynllun adfer, ôl-ofal ac ôl-ddefnydd yn cael eu cynnwys, yn ogystal â manylion arian arfaethedig.
- POLISI C15 - **Symud Deunydd o Domen Gwaith Mwynau**. Rhaid i gynigion i symud deunydd o domen gwaith mwynau gydymffurfio â Pholisi C7 yn ogystal â nifer o feini prawf yn cynnwys materion yn ymwneud â symud y deunydd.
- POLISI C17 - **Adolygu Hen Hawliau Cynllunio Mwynau** . Angen adolygu hen hawliau cynllunio mwynau fel eu bod yn cydymffurfio â chyfres o feini prawf gan gynnwys lliniaru ar gyfer effaith trafnidiaeth, mwynderau gweledol, bioamrywiaeth, safleoedd o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol, hawliau tramwy cyhoeddus, mwynderau trigolion lleol, cynigion adfer a hyd y caniatâd.
- POLISI CH22 - **Rhwydwaith Beicio, Llwybrau a Hawliau Tramwy**. Gwarchodir pob rhan o'r rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy trwy annog cynigion fydd yn eu hymgorffori yn foddhaol o fewn y datblygiad a thrwy wrthod cynigion a fydd yn atal cynlluniau i ymestyn y rhwydwaith beicio, llwybrau a hawliau tramwy. Os nad yw hyn yn bosibl bydd angen sicrhau darpariaeth briodol i wyro'r llwybr i ddarparu llwybr newydd a derbyniol.
- POLISI CH33 – **Diogelwch ar Ffyrdd a Strydoedd**. Caniateir cynigion datblygu os gellir cydymffurfio â meini prawf penodol sy'n ymwneud â'r fynedfa gerbydau, safon y rhwydwaith ffyrdd presennol a mesurau tawelu traffig.
- POLISI CH36 – **Cyfleusterau Parcio Ceir Preifat**. Gwrthodir cynigion am ddatblygiadau newydd, ehangu datblygiadau presennol neu newid defnydd os na ddarperir lle i barcio cerbydau oddi ar y stryd yn unol â chanllawiau parcio cyfredol y Cyngor, gan roi ystyriaeth i hygyrchedd gwasanaeth cludiant cyhoeddus, y gallu i gerdded a beicio o'r safle a phellter y safle at faes parcio cyhoeddus.
- POLISI D4 – **Safleoedd Cymydog Gwael**. Cymeradwyo datblygu safleoedd 'Cymydog Gwael' ar yr amod bod y datblygiad wedi'i leoli ar safle 'cymydog gwael' dynodedig ac yn amodol ar raddfa a dyluniad derbyniol.

**Canllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd,**

- Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009,
- Canllaw Dylunio Gwynedd 2004
- Cymeriad y Dirwedd - Tachwedd 2009

Mae Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn, sydd wrthi'n cael ei baratoi, yn destun Archwiliad Cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'n ystyriaeth cynllunio berthnasol ar hyn o bryd ar gyfer gwneud penderfyniadau am geisiadau cynllunio.

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Llywodraeth Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Rhifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru (Tachwedd 2016),
- Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010,
- Nodyn Canllaw Cynllunio Mwynau: 14 (Adolygu Hen Hawliau Cynllunio Mwynau),

- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio (Medi 2009) Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 11: Sŵn (Hydref 1997) Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 15: Datblygu a Pherygl o Lifogydd (Gorffennaf 2004), Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 18: Trafnidiaeth (Mawrth 2007) Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol sydd wedi'u nodi yn Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 23: Datblygu Economaidd (Chwefror 2014) Llywodraeth Cynulliad Cymru,
- Polisïau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol a nodir yn Nodyn Cyngor Technegol Mwynau (Cymru) 1, Llywodraeth Cynulliad Cymru: AGREGAU (Mawrth 2004),
- Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru ar Agregau, Adolygiad Cyntaf Awst 2014.

**3 Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 Ers 1947 mae'r safle wedi gweithredu'n ddiamod o dan Orchymyn Datblygu Dros Dro a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 'ardaloedd tipio a datblygiad chwarel arfaethedig" gan Gyngor Dosbarth Gwledig Ogwen.

3.2 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C96A/0020/16/MW gydag amodau a Chytundeb Adran 106 ar 19 Ionawr 2000 a oedd yn disodli'r caniatâd Gorchymyn Datblygu Dros Dro blaenorol a hefyd y caniatâd a roddwyd ym 1995 ar gyfer cloddio am fwynau yn Chwarel y Penrhyn a ddaw i ben ar 31 Rhagfyr 2032.

3.3 Caniatâd Cynllunio C97A/0304/16/CL. Defnyddio Adeiladau Presennol yn gysylltiedig â gwaith chwarel at Ddefnydd Busnes (Dosbarth B1), Diwydiannol Cyffredinol (Dosbarth B2) ac mewn Warws (Dosbarth B8) a dal i ddefnyddio'r ffreutur bresennol a ganiatawyd gydag amodau ar 14 Ionawr 1998.

3.4 Ar 17 Mehefin 2005 cyflwynwyd hysbysiad ffurfiol o dan ddatblygiad a ganiateir gyda'r cynlluniau a'r manylion priodol ar gyfer datblygu sied lifio yn mesur 134 x 44 x 7 ar yr iard brosesu.

3.5 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C04A/0519/16/MW, gydag amodau, ar 31 Mai 2005 ar gyfer symud a phrosesu hyd at 650,000 tunnell fetrig y flwyddyn o agregau o rwbel llechi hyd at 31 Rhagfyr 2015.

3.6 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C10A/0490/16/LL, gydag amodau, ar 29 Tachwedd 2010 ar gyfer Adnodd Arfaethedig Ailgylchu Gwastraff Anadweithiol (rwbel llechi) yn Chwarel y Penrhyn, Bethesda (Daeth i ben).

3.7 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C12/0874/16/MW, gydag amodau ac Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, ar 18 Rhagfyr 2012 ar gyfer Estyniad ac Ailaliniad Arfaethedig o Waith Chwarel Lechi gyda Chynllun Adfer Graddol.

3.8 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C13/0859/16/LL, gydag amodau, ar 16 Hydref ar gyfer Adnodd Ailgylchu Gwastraff Anadweithiol Arfaethedig (rwbel llechi).

3.9 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C11/1113/16/LL gydag amodau ar 20 Ebrill 2012 ar gyfer codi dau gwrs gwifren zip, adnoddau parcio cerbydau ac adeilad gweinyddol dros dro.

3.10 Rhoddwyd Caniatâd Cynllunio C15/1199/16/LL gydag amodau ar 11 Mawrth 2016 ar gyfer gosod gwifrau zip newydd a seilwaith ychwanegol gan gynnwys clawdd rhag sŵn 4.5m.

3.11 Cais Cynllunio C15/1344/16/MW, a ganiatawyd gydag amodau fis Mehefin 2016, cais o dan Adran 73 i amrywio amod 2 ar ganiatâd cynllunio C04A/0519/16MW i ddal ati i weithio gan gynnwys symud rwbel llechi.

**4. Ymgynghoriadau:**

Gyngor Cymuned Llandygai: Dim ymateb

Cyngor Tref Bethesda: Dim ymateb

Uned Drafnidiaeth Gwynedd: Dim ymateb

Uned Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru: Cyfarwyddid y dylid cadw at yr amodau cludiant yn yr Asesiad Cludiant am hyd y caniatâd cynllunio.

Cyfoeth Naturiol Cymru:

- Mae'r chwarel ar y terfyn ag Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri. Cadarnhad fod yr asesiad a wnaed gan Gyngor Gwynedd fel yr awdurdod cymwys o dan Reoliad 61 o Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 yn cyfarfod â gofynion Cyfoeth Naturiol Cymru, yn amodol ar ddiwygio Rhan C, *'a ellir osgoi effeithiau niweidiol,* i gadarnhau fod rhan o'r ffrwd wedi'i chreu y tu allan i'r ffin cynllunio ac o fewn yr Ardal Cadwraeth Arbennig.
- Cytuno gyda'r mesurau lliniaru yn y Datganiad Amgylcheddol;
    - Sicrhau fod ffensys y ffiniau'n gwbl gadarn a cheisio sicrhau nad yw defaid yn cael eu cyflwyno'n fwriadol i'r chwarel,
    - Sicrhau fod marcwyr cwadrat sefydlog islaw'r ffrwd yn cael eu cadw'n weladwy ar gyfer arolygon i fonitro newidiadau yng nghyfansoddiad a nifer y rhywogaethau, gwaddodion a newidiadau hydrolegol i fesur pa mor effeithiol yw'r ffrwd.
    - Ffoto-monitro'n ffrwd bob blwyddyn,
    - Parhau â'r mesurau llym i sicrhau nad oes unrhyw ddefnydd yn dod i mewn i'r chwarel a fyddai'n lledaenu Rhywogaethau Anfrodorol Ymwthiol a deunydd ecolegol arall amhriodol.
    - Sefydlu rhaglen monitro'r Fran Goesgoch yn flynyddol.
    - Argymell peidio â chynnwys y Wernen Eidalaidd yn y cynllun o blannu ac adfer coed,
- Cytuno mai bychan, mae'n debyg, fydd cyfraniad dŵr daear i gyrsiau dŵr wyneb o gymharu â llif dŵr o wyneb y tir. Dynodwyd llechi Llanberis fel dyfrhaen Eilaidd B er y gall presenoldeb cerrig tywod a dyddodion drifft arwynebol drosglwyddo dŵr daear. O gofio mor agos yw safle'r cais at Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr a chyfraniad dŵr daear i nodweddion dŵr wyneb lleol, disgwylir y bydd lefel y dŵr daear yn cael ei fonitro,
- Canfod pa gyflenwadau dŵr preifat sy'n dibynnu ar ddŵr daear allai gael eu heffeithio gan y caniatâd. Er y derbynnir

fod y chwarel yn gweithio ers blynyddoedd lawer a bod math o gydbwysedd wedi datblygu, argymhellir y dylid cynnal asesiad o'r risgiau posibl i ddefnyddwyr preifat anhysbys yn ardal yr estyniad.

- Gwagio'r dŵr o hen dyllau chwarel sydd wedi'u heithrio rhag gorfod cael trwyddedu echdynnu. Rhaid i unrhyw newidiadau mewn draenio'r safle sicrhau fod y safle'n dal i gydymffurfio â'i thrwydded gollwng dŵr. Mae dŵr wyneb yn rhedeg o'r hen dyllau'r chwarel trwy Geuffordd George i Afon Ogwen o dan ganiatâd gollwng presennol.
- Erbyn hyn, Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol Llifogydd Lleol. Sylwadau wedi'u cyfyngu i raddfeydd dŵr wyneb / mannau gollwng a nodir fod yr adroddiad yn dod i'r casgliad na fydd y trefniadau draenio newydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd mewn mannau eraill. Yn fodlon fod dŵr ffo ar ôl glaw sy'n disgyn o fewn ffiniau safle'r cais yn dderbyniol o ran peryglon llifogydd. Mae'r safle'n gyfan gwbl o fewn parth A, yn ôl y Mapiau Cyngor Datblygu sydd gyda Nodyn Cyngor Technegol 15,
- Mae adolygiad tirlun Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch effeithiau'r estyniad a ganiatawyd i'r chwarel a'r cynigion ar gyfer adfer yr estyniad a'r chwarel bresennol, ynghylch y lleoliad a'r golygfeydd o Barc Cenedlaethol Eryri; y golygfeydd o AHNE Ynys Môn a chymeriad Gwerth Hanesyddol Neilltuol Tirlun Dyffryn Ogwen.
- Cytuno ag Asesiad Effaith Tirwedd a Gweledol (SLR Consulting Limited) sy'n asesu mai cymharol fychan (anarwyddocaol) fydd effeithiau'r estyniad i'r chwarel, o gofio mai cymharol fychan yw'r newid wrth ymestyn y chwarel ar gymeriad a golygfeydd sylfaenol y dirwedd sydd eisoes yn cael eu dylanwadu'n gryf gan faint Chwarel y Penrhyn ar hyn o bryd, ei thomeni rwbel ac wynebau a phonciau'r gwaith; ac y byddai effeithiau'r cynllun adfer yn gymharol fanteisiol (arwyddocaol) yn bennaf o ganlyniad i ailraddio tomeni rwbel y chwarel a'u hadfer i ffurfiau tir a gweundir mwy naturiol,
- Cytuno â'r strategaeth adfer gynyddol ar gyfer y mannau yn y chwarel sydd wedi darfod eu gweithio drwy ddefnyddio peli hadau, coed bychan mewn cydau hesian a thrin y ponciau, o gofio am faint y chwarel a'r problemau sy'n codi o weithio gyda rwbel llechi ac wynebau caled y graig. Cynigir peidio ag amharu ar y tomeni llechi ar ymyl y safle oherwydd rhesymau treftadaeth ddiwylliannol, ac rydym yn cefnogi hynny'n llwyr - mae'r rhain yn arbennig ac yn bwysig i'n hunaniaeth ddiwylliannol a synnwyr o le yn lleol ac yn genedlaethol y rhan hon o ogledd-orllewin Cymru ac ar ymylon Eryri.
- Mae angen rhagor o wybodaeth ynghylch y gwaith o newid ffurfiau tomeni'r chwarel yn raddol a sefydlu gweundir arnyn nhw ac ynghylch technegau, y prosesau a'r rheolaeth i gyrraedd y nod o wella cymeriad a photensial ecolegol y dirwedd ac ynghylch sut y bydd hynny'n cael ei fonitro.
- Argymhellir y dylid cynnwys amod gyda geiriad addas er mwyn sicrhau fod y mesurau lliniaru yn ddigon da i sicrhau nad oes cymaint o lwch yn cael ei ollwng i fod yn niwsans i eiddo trigiannol.

- Mae eto i'w gyhoeddi fod yna safle Adolygu Cadwraeth Ddaearegol (GCR) yn y chwarel ac mae yna hefyd Safle Daearegol a Geomorffolegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (RIGS) ar ei chwr gogledd-ddwyreiniol. Gallai trafod y safleoedd dynodedig (safleoedd RIGS a GCR) gyda chynllunwyr a gweithredwyr y chwarel arwain Cyfoeth Naturiol Cymru at fesurau geo-gadwraeth ynghylch rhedeg ac adfer y chwarel.

Uned Fioamrywiaeth Gwynedd:

- Y prif bryder ecolegol a amlygwyd yn y caniatâd C12/0874/16/MW oedd y gellid effeithio ar gors Gwaun Gynfi, sydd i lawr llethr y chwarel ac sydd o fewn safleoedd dynodedig - Safle Cadwraeth Arbennig Eryri a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eryri. Yr effaith a nodwyd oedd y gallai dŵr daear sy'n llifo i'r gors lifo yn hytrach i dwll y chwarel. Er mwyn lliniaru hyn, mae ffrwd wedi'i ffurfio ar ymyl twll y chwarel i gludo'r dŵr i'r llethr islaw ac felly sicrhau fod y dŵr wyneb yn dal i lifo i'r gors. Mae'r ffrwd yn cyfeirio'r dŵr ffo i islaw lle mae'r ardal ail-alinio. Mae'r dŵr o'r ffos yn treiddio i'r mawn yn y gors a hefyd yn gorlifo i rostir gwlyb. Y syniad yw bod y ffos yn gollwng dŵr ar ei hyd i lawr y llethr er mwyn ail greu'r amodau naturiol yn well,
- Mae angen gwaith ar y ffrwd i'w chael i gydymffurfio gyda'r manylebion gofynnol a'r dyluniad a ganiateir yn y cynigion adolygu,
- Mae'n bwysig monitro sut mae'r ffrwd yn gweithio a dylid monitro ymhellach y llystyfiant yng nghors Gwaun Gynfi a rhai rhywogaethau sy'n debyg o leihau mewn amodau rhostir gwlyb i ganfod unrhyw newid yn yr amodau,
- Mae Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd), wedi cynnal Asesiad Priodol o dan Reoliad 61, er mwyn sicrhau y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fydd y cynnig yn amharu ar gyfanrwydd yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Y materion allweddol sydd yn yr asesiad priodol yw:
    - Ni fydd y cynigion a gafodd eu hadolygu'n arwain at golled uniongyrchol o gynefin cymunedau rhostir gwlyb Atodiad1,
    - Ni fydd unrhyw effaith anuniongyrchol ar gynefinoedd gorgors a rhostir gwlyb Gwaun Gynfi. Y ffrwd wedi'i dylunio i gynnal hydroleg yr Ardal Cadwraeth Arbennig.
    - Colled uniongyrchol posibl o nodwedd cynefin – Adeiladu'r ffrwd liniaru wedi osgoi cynefinoedd y rhostir gwlyb.
- Daeth yr asesiad priodol i'r casgliad na fydd unrhyw effaith niweidiol ar Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri, cyn belled ag y gwneir y gwaith adfer ar y ffrwd a bod amodau'n cael eu gosod i sicrhau bod y ffrwd yn gweithio, a'i bod yn cael ei monitro bedair gwaith y flwyddyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyd-fynd â'r asesiad hwn.
- Yn fodlon fod y cynllun adfer yn ceisio gwella'r safle ar gyfer bioamrywiaeth. Mae'r Bennod Ecoleg yn trafod pedwar safle gwahanol yn y chwarel sydd wedi'u hadfer

drwy ddefnyddio gwahanol ddulliau 1) plannu gyda phlygiau grug a choed ifanc a 2) defnyddio peli hadau, y ddau'n gallu creu cynefinoedd gweundir yn effeithiol h.y. rhai gyda digonedd o rug. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd atal defaid rhag pori ar y safle oherwydd bod hynny'n rhwystr difrifol i ddatblygiad y cynefinoedd. Mae hefyd yn awgrymu y dylid gadael y crawiau mawr o lechi ar y llethrau sy'n annhebyg o gael eu gorchuddio gyda llechi manach fel 'cynefin sgri a wnaed gan ddyn' sy'n addas ar gyfer y pryf copyn prin *Rugathodes.*

- Yn fodlon gyda'r amodau a gynigir ar gyfer gwarchod, gwella ac adfer ecolegol ond yn argymell ardal fwy ar gyfer ail greu ac adfer cynefin a bod llystyfiant yn cael ei fonitro yn unol â'r amodau adolygu sydd ynghlwm â'r caniatâd presennol.

I grynhoi;

- Amodau i sicrhau fod y ffrwd yn cael ei monitro bedair gwaith y flwyddyn er mwyn sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn,
- Gwaith rheoli ar y ffrwd i gynnwys ei glanhau a'i charthu, ei chynnal a'i chadw ac adrodd yn ôl,
- Rhaid atal defaid rhag pori yn y chwarel, yn enwedig yn yr ardaloedd wedi'u hadfer. Dylid codi ffensys cadarn.
- Dylid datblygu gwell system o fonitro llystyfiant Cors Gwaun Gynfi ac ar ardaloedd adfer cynefin a rhostiroedd. Rwy'n argymell darparu a chytuno datganiad dull i fonitro llystyfiant cyn ymgymryd â rhagor o waith monitro.
- Dylid paratoi map llystyfiant manwl o holl dir y chwarel.
- Dylid paratoi map yn dangos lle mae'r holl fannau monitro.
- Nid wyf yn argymell parhau i fonitro drwy osod maglau i ddal mamaliaid bychain na monitro'r fran goesgoch.
- Parhau i reoli a monitro'r ffrwd.
- Diweddaru'r adroddiad cen i ddangos lle mae'r cerrig mawr, a rhai wedi symud, sydd â chen arwyddocaol.
- Dylid chwilio'r chwarel bob dwy flynedd am rywogaethau o blanhigion ymwthiol anfrodorol (y rhai sydd wedi'u rhestru yn atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y'i diwygiwyd).
- Diweddaru amod '47' ar gyfer adfer ardal fwy.

| | |
|---|---|
| Dŵr Cymru: | Dim sylwadau, gan nad yw'r cais yn cysylltu â'r rhwydwaith garthffosiaeth gyhoeddus. |
| Uned Gwarchod y Cyhoedd Gwynedd | Dim ymateb |
| Economi a Chymuned Gwynedd: | Dim ymateb |
| Cefn Gwald a Mynediad Gwynedd: | • Yn 2002 cyflwynwyd gorchymyn dros dro i gau llwybr troed cyhoeddus ar lwybrau Rhifau 46 a 50 yng nghymuned Llandygai o dan Adran 275 a 261 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn cynnal gwaith wedi'i awdurdodi yn y chwarel. Roedd y gorchymyn cau i redeg am 15 mlynedd ac ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, byddai gofyn i berchnogion y |

Chwarel adfer y llwybrau troed a'r gwyriad o rannau ohonyn nhw yn unol â Gorchymyn 2002.

- Yn hanesyddol, roedd y llwybrau troed yma yn cysylltu Mynydd Llandygai a thref Bethesda ac yn debyg o fod yn rhan o'r rhwydwaith llwybrau y byddai cenedlaethau o chwarelwyr wedi'u cerdded. Daw cyfnod y gorchymyn cau i ben fis Chwefror 2017 ac mae'r ymgeisydd yn cadarnhau nad yw'r llwybrau wedi'u hadfer ac mae'n cyflwyno achos dros ymestyn y cyfnod cau tan 31 Rhagfyr 2034, sef y dyddiad pan ddaw'r caniatâd mwynau i ben, er mwyn gallu gweithredu'r cynigion ar gyfer y safle a rhag i wrthdaro godi gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Wrth gydnabod pryderon y Chwarel, mae'n rhaid pwysleisio fod y cyhoedd eisoes wedi colli defnydd yr adnodd am bron iawn i 15 mlynedd ac yn debyg o'i golli am hyd at 17 yn rhagor. Credir y byddai'n bosibl ddarparu llwybr(au) amgen i osgoi'r ardal waith y chwarel a dylid annog y perchnogion i weithio gyda'r Uned Cefn Gwlad i ganfod dewisiadau diogel ac ymarferol.

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd

- Pryderon yn parhau yna ynghylch y bygythiad i olion archeolegol yn yr ardal waith a ganiateir o gofio fod hanner y safleoedd a nodwyd yng nghynllun ymchwilio archeolegol 1995 wedi'u dinistrio heb eu cofnodi'n llawn,
- Mae adolygu'n rheolaidd, megis y broses cynllunio llwybrau cyhoeddus, yn bwysig er mwyn monitro'r gwaith rheoli a hefyd liniaru pryderon archeolegol ond ni ddylai hynny olygu dim ond cofnodi colled ar ôl colled. Mae angen gwella'r agwedd tuag at archaeoleg mewn chwareli sy'n gweithio er mwyn cadw arwyddocâd cyfun y safle.
- Mae difrod heb ei liniaru wrth sefydlu'r ffrwd gasglu dŵr wedi effeithio ar ran o fferm gyn-hanesyddol a nodwyd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol. Mae angen adolygu'r gwaith lliniaru o gofio y gallai'r gwaith lliniaru i sicrhau fod y ffrwd yn gweithio niweidio'r nodwedd archeolegol ymhellach wrth greu llwybrau mynediad dros dro dros ffiniau'r tir caeedig a thynnu cerrig o'r waliau cyn hanesyddol ar gyfer gwaith ar y ffrwd. Mae'n bwysig bod archeolegydd yn monitro gwaith fel hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddifrod yn cael ei beri i'r fferm cyn hanesyddol,
- Awgrymir newidiadau i'r amodau archeolegol a gyflwynwyd gyda'r cais i gynnwys;
- Manylebion ar gyfer gwaith a pharatoi adroddiad archeolegol,
- Yr holl waith sydd wedi'i gynnwys yn yr amodau i'w wneud gan gontractwr archeolegol gyda'r cymwysterau priodol,
- Codi ffensys o gwmpas safleoedd archeolegol cyfeirnod PRN 5380, 12327 a 29989 nes y cytunir ac y gweithredir rhaglen lliniaru archeolegol gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o flaen llaw,
- Awgrymu ymhellach y dylid cynnwys amod ychwanegol at yr hyn a gynigir yn gofyn am gynhyrchu a mabwysiadu cynllun rheoli archeolegol ar gyfer y chwarel.
- Ardal iawndal ecolegol Gwaun Gynfi i gynnwys gwaith lliniaru ar gyfer nifer o nodweddion archeolegol sydd ar eu traed gan gynnwys rheoli rhostir gwlyb, rheoli pori ac adfer

rhywogaethau o goed brodorol. Awgrymu ymhellach cynnal ymchwiliad archeolegol yn yr ardal.

- Dylid cynnwys balansau dŵr presennol, PRNs 59998 a 60020, o arwyddocâd cenedlaethol mewn unrhyw gynllun rheoli archeolegol ar gyfer y chwarel. Efallai yn deilwng o statws ddynodedig statudol.

| | |
| --- | --- |
| Yr Arolygaeth Chwareli | Dim ymateb |
| Scottish Power | Dim ymateb |
| First Hydro: | Dim ymateb |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Dim sylwadau ar y cais hwn |
| CADW: | • Mae'r cynigion yn y cais y tu fewn i ffiniau'r chwarel ac ni fydd cyfanrwydd na lleoliad unrhyw heneb restredig yn cael ei effeithio.<br>• Cynnig amodau i amddiffyn a lliniaru'r difrod i unrhyw safleoedd archeolegol heb eu dynodi o fewn terfynau'r chwarel. |
| Swyddog Cadwraeth Gwynedd | Dim ymateb |
| Rheoli Perygl Llifogydd Gwynedd: | Dim ymateb |
| Tir Comin (Porwyr) | Dim ymateb |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | Gosodwyd Hysbysiadau Safle mewn sawl lle ym Methesda a Mynydd Llandygai ar 28 Medi 2016 a chyhoeddwyd rhybudd statudol yn y Caernarfon & Denbeigh Herald.<br><br>Ni dderbyniwyd sylwadau gan drydydd parti yn ymateb i'r cyhoeddusrwydd statudol ynghylch y cais. |

**5. Asesiad o'r Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:**

**Egwyddor y datblygiad**

5.1 Mae Rhifyn 9 Polisi Cynllunio Cymru'n cyfuno polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer mwynau a oedd, o'r blaen, wedi'u cynnwys yn y Polisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Yn unol â gofynion Polisi Cynllunio Cymru 9, mae yna ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, i sicrhau fod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy ac yn gallu gwneud cyfraniad priodol i'r gofynion am ddeunyddiau adeiladu yn yr ardal. Egwyddorion allweddol polisi cynllunio mwynau Llywodraeth Cymru yw:

- *darparu cyflenwad digonol o fwynau ar gyfer anghenion y gymdeithas, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, a hefyd warchod a gwella mwynderau;*
- *diogelu'r pethau sy'n cael eu hystyried yn bwysig oherwydd eu nodweddion cynhenid, megis bywyd gwyllt, tirweddau a nodweddion hanesyddol, ac amddiffyn iechyd a diogelwch pobl drwy sicrhau fod effeithiau amgylcheddol cloddio a chludo mwynau o fewn terfynau derbyniol, a sicrhau, heb gyfaddawdu, adfer ac ôl-ofal i ddarparu ôl-ddefnydd addas a buddiol;*
- *helpu cadwraeth adnoddau an-adnewyddol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy ddefnyddio,*

*ailgylchu a rhwystro gwastraff yn effeithlon; diogelu adnoddau adnewyddol rhag niwed neu lygredd difrifol a hyrwyddo'r defnydd o ddefnyddiau amgen addas.*

- *sicrhau cyflenwad digonol o'r mwynau sydd eu hangen am brisiau rhesymol a diogelu adnoddau mwynau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.*

5.2 Pan geir cais i benderfynu ar amodau o dan Adolygiad Cyfnodol, dylid cofio fod yr egwyddor o redeg chwarel eisoes wedi'i sefydlu drwy'r caniatadau cynllunio presennol a dylid cofio hefyd y gallai ceisio defnyddio'r broses adolygu i ddiddymu'r caniatadau hynny neu gyfyngu ar hawliau gweithio arwain at orfod talu crocbris o iawndal. Yr unig faterion y gall yr awdurdod cynllunio mwynau eu hystyried yw'r amodau ar y caniatadau hynny a'r cynllun gwaith ar gyfer y 15 mlynedd nesaf.

5.3 O ran ystyriaethau amgen yn unol ag Atodlen 4 o'r Rheoliadau Asesiad Effeithiau Amgylcheddol, mae'n rhaid i'r awdurdod ystyried cyd-destun y cais y mae'r Asesiad Effeithiau Amgylcheddol yn berthnasol iddo, hynny yw, adolygu caniatadau mwynau o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995. Diben y cais yw adolygu'r amodau y dylid eu gosod ar ddatblygiad y chwarel yn y dyfodol. Mae'n bwysig gwahaniaethu rhwng y math yma o gais a chais o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 am ganiatâd cynllunio ar gyfer chwarel – mae'r chwarel eisoes wedi cael caniatâd cynllunio sy'n caniatáu cloddio am lechi tan 2032. Nid yw ystyried safleoedd amgen, felly, yn ystyriaeth faterol. Diben Asesiad Effeithiau Amgylcheddol ar gyfer adolygiad cyfnodol yw bod o gymorth wrth nodi'r effeithiau amgylcheddol a sut i'w lliniaru gyda rhestr o amodau cynllunio cyfoes er mwyn lleihau'r effeithiau a nodwyd.

5.4 Yn achos Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau a'r Asesiad Amgylcheddol, mae ystyriaethau amgen yn golygu dulliau eraill o weithio a'r cynlluniau lliniaru ac adfer y gellid eu hystyried yn hytrach na chyflenwi o fannau eraill neu chwilio am ddeunydd ar safleoedd newydd neu ail agor chwareli wedi hen gau.

5.5 O dan ddeddfwriaeth Adolygiad Mwynau gall y Cyngor osod amodau gwahanol i'r rhai a gyflwynir gan y gweithredydd. Gallai hawl i iawndal godi pe byddai effaith amod cyfyngol yn "*... niweidiol i raddau afresymol un ai hyfywdra economaidd y gwaith neu werth y safle fel ased...."* Yn ôl rheoliadau cynllunio, mae'n rhaid i amodau fod yn;

i. Angenrheidiol
ii. Perthnasol i Gynllunio
iii. Perthnasol i'r Datblygiad
iv. Gorfodadwy
v. Manwl
vi. Rhesymol ym mhob agwedd arall

5.6 Mae cynhyrchu llechi wedi bod yn ffordd o fyw yng Ngwynedd ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth hynny wedi dod yn gymaint rhan o ddiwylliant a thirwedd yr ardal ag yw'r iaith Gymraeg a'r golygfeydd. Yn y pen draw, dim ond lle mae digon ohonyn nhw ar gael yn ddaearegol ac yn economaidd y gellir cloddio mwynau. Mae'r cais hwn yn trafod cynigion adolygu ar gyfer un o'r chwareli mwyaf a'r hynaf sydd ger Parc Cenedlaethol Eryri. Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae yna ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau fod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy fel eu bod yn gallu gwneud cyfraniad priodol i ddiwallu gofynion yr ardal am ddeunyddiau adeiladu.

5.7 Mae yna hen hanes o chwareli llechi yng Ngwynedd ac maen nhw'n dal yn elfen bwysig yn economaidd ac yn gymdeithasol. Roedd chwareli llechi Gwynedd, yn draddodiadol, yn cynhyrchu llechi toi rhagorol ond yn fwy diweddar mae'r gwaith wedi troi at gynhyrchu slabiau llechi pensaernïol, addurniadau adeiladu a defnyddio rwbel llechi fel agregau eilaidd yn lle'r cerrig glân traddodiadol. Mae Polisi Cynllunio Cymru'n cydnabod ym mharagraff 14.7.8 fod "*chwareli llechi'n chwarae rhan bwysig mewn cynnal nodweddion adeiladau lleol yn, er*

*enghraifft, Parc Cenedlaethol Eryri, lle mae defnyddio llechi o ymddangosiad penodol yn bolisi cynllunio llym"* ac, ymhellach, "*....Mae'n bwysig fod y cyflenwad o lechi'n cael ei gynnal".*

5.8 Mae'r Chwarel Ddeheuol yn cynnwys tri maes daearegol a geodechnegol sy'n cael eu gwahanu gan ffawtiau mawr, pob maes yn cynnwys defnyddiau a strwythurau tebyg.

- Y Maes Llwyd Caled
- Y Maes Porffor
- Y Maes Coch a Glas

Yn gyffredinol, mae'r garreg lechi wedi hindreulio i ddyfnder o tua 60 metr ar gyfartaledd islaw'r wyneb presennol o tua 342 metr Uwchlaw Datwm Ordnans. O gofio fod 400,000 tunnell y flwyddyn o lechi toi, deunyddiau pensaernïol ag agregau eilaidd yn cael eu cynhyrchu, ystyrir y byddai rhestr o amodau wedi'u diweddaru yn golygu y gellir rhyddhau'r mannau sydd â chaniatâd gyda chynllun gwaith cynaliadwy a fyddai'n galluogi'r cwmni i weithio'r meysydd llechi porffor, glas a choch ac felly ddiogelu oes y chwarel am 15 mlynedd arall tan 2032. Bydd unrhyw wastraff a fydd yn cael ei gynhyrchu o'r wynebau newydd yn cael ei ddefnyddio un ai fel agreg neu fel defnydd addurno a bydd unrhyw rwbel yn weddill yn cael ei roi ar y tomeni presennol o dan delerau'r '2000' ac adolygu'r cynigion adolygu adfer a gyflwynwyd yn 2014.

5.9 Mae tynnu deunydd o'r ddwy domen rwbel o dan ganiatâd C15/1344/16/MW yn ychwanegol at y rwbel a ddaw o'r gwaith o gynhyrchu llechi toi sy'n cael ei farchnata fel agregau eilaidd. Er mai fel rwbel yr ystyrir y deunydd yn draddodiadol, mae yna lawer iawn o lechi glân yn y tomeni a ddaeth o'r gwaith hollti a thorri yn y cytiau torri yn y chwarel.

5.10 Ers cyflwyno'r dreth agregau yn 2002 mae rhagor o rwbel llechi'n cael ei ddefnyddio yn lle cerrig glan – nid yw'r dreth sylfaenol o £2.00 y dunnell ar agregau yn cael ei godi ar rwbel llechi. Mae Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yn cydnabod bod rwbel llechi'n adnodd gwerthfawr y gellir ei ddefnyddio yn lle agregau ac a fyddai'n ysgafnhau'r pwysau ar adnoddau mwynau glân.

5.11 Mae Datganiad Technegol Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i adolygu a chafodd ei gymeradwyo gan bob awdurdod lleol yng Nghymru fis Awst 2014 ar ôl derbyn cymeradwyaeth y Gweinidog. Cafodd y datganiad ei baratoi yn unol â darpariaethau Polisi Cynllunio (Cymru) a Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 1: i osod amcan cyffredinol o sicrhau cyflenwad yn cael ei reoli a chynaliadwy o agregau "*... i gael y cydbwysedd gorau rhwng ystyriaethau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol a gwneud yn siŵr fod effeithiau amgylcheddol a mwynderau unrhyw waith cloddio yn cael ei gadw i lefel sy'n rhwystro peri niwed amlwg i ddiddordebau sydd o bwysigrwydd cydnabyddedig".* Prif ddiben y Datganiad Technegol Rhanbarthol yw gosod strategaeth ar gyfer darparu agregau yn rhanbarth gogledd Cymru. O ran llechi fel ffynhonnell agregau, mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol yn datgan, "*Yng ngogledd Cymru, mae llechi wedi'u malu, sy'n dod un ai o rwbel chwarel (fel sgil gynnyrch cynhyrchu llechi toi) neu sy'n cael ei gloddio'n benodol fel agreg glân, yn rhan arwyddocaol o'r patrwm cyflenwi cyffredinol, yn enwedig yng Ngwynedd".*

5.12 Mae adolygiad cyfnodol o'r gwaith o gloddio a gweithio llechi, tipio rwbel llechi a'r cynigion ar gyfer adfer a chloddio am fwynau eilaidd yn dderbyniol mewn egwyddor. Yn amodol ar ystyried yr holl ystyriaethau cynllunio materol eraill, ystyrir fod y datblygiad yn cyd-fynd mewn egwyddor â Pholisïau a Chanllawiau Cenedlaethol a Rhanbarthol yn ogystal ag â gofynion Polisïau A1, A3, C9 ac C10 o'r Cynllun Datblygu Unedol. Fodd bynnag, y brif ystyriaeth yw y dylai'r cynnig gyd-fynd â Pholisi C17, *Adolygu Hen Ganiatadau Mwynau*, sy'n gofyn i bob cynnig gydymffurfio â nifer o feini prawf gan gynnwys lliniaru effeithiau cludiant, mwynderau gweledol, bioamrywiaeth, safleoedd o ddiddordeb archeolegol a hanesyddol, llwybrau cyhoeddus, mwynderau trigolion lleol, cynigion adfer a hyd y caniatâd.

**Mwynderau Gweledol**

5.13 Mae Chwarel y Penrhyn ar ochrau gogleddol Carnedd y Filast sy’n codi i 821 metr Uwch Datwm Ordnans i'r gorllewin o Nant Ffrancon. Rhennir Chwarel y Penrhyn yn ddwy ardal gloddio wahanol, Chwarel y Gogledd, sydd bellach o dan ddŵr, a Chwarel y De, sy'n dal i weithio. Mae tomeni llechi enfawr o boptu’r ddwy. Gellir disgrifio cymeriad y dirwedd fel cyfuniad o elfennau, patrymau, ansawdd, graddfa'r tir a defnydd y tir yn y dirwedd a'r hyn sy'n gwneud yn ardal yn wahanol i'r llall ac yn creu synnwyr o le. Mae cynhyrchu llechi wedi bod yn ffordd o fyw yng Ngwynedd ers canrifoedd ac mae etifeddiaeth hynny wedi dod yn gymaint rhan o ddiwylliant a thirwedd yr ardal ag yw'r iaith Gymraeg a'r golygfeydd. Mae’r datblygiad yn gyfan gwbl o fewn y chwarel ac yn cynnwys tomeni llechi serth, seilwaith hanesyddol y chwarel a'r llystyfiant aeddfed sy'n eu hamgylchynu ac sy’n ei chysgodi i raddau helaeth yn ogystal â bod yn rhan hanfodol o dirwedd hanesyddol.

5.14 Mae’r cynigion yn yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau’n cynnwys cynllun gwaith cynhwysfawr ar gyfer y graig sy'n dal ar ôl ar gyfer datblygu'r chwarel mewn cyfres o bonciau yn rhedeg i'r de-orllewin, sy'n cynnwys ardal yr estyniad yn 2012. Fodd bynnag, nid yw’r cynigion ar gyfer gweithio'r wyneb de-orllewin o dan C08A/0039/16/MW yn ymddangos yn yr Adolygiad o Hen Ganiatadau Mwynau na phociau uchaf y ‘garreg lwyd’ ar wyneb ochr dde’r chwarel bresennol sy’n dal i gael ei gweithio ac sydd ger terfyn y Parc Cenedlaethol.

5.15 Cynhaliwyd asesiad tirwedd a gweledol o’r datblygiad arfaethedig yn unol â’r canllawiau derbyniol drwy astudiaethau desg a gwaith maes. Mae’r asesiad tirwedd a gweledol yn cynnwys arfarniad o effeithiau gweledol y datblygiad ar Barc Cenedlaethol Eryri ac ar y Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol. Mae’n defnyddio mannau edrych dethol a ffurfweddau cyfrifiadurol i ddangos lleoliad y datblygiad yng nghyd-destun y cynllun echdynnu sydd wedi’i ganiatáu ar hyn o bryd a’i osodiad yn y dirwedd ehangach, gan gynnwys Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn. Mae'r asesiad yn gwneud arfarniad o effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol (ffisegol ac ân ffisegol) o'r datblygiad ar y tirweddau o amgylch yn ogystal ag ar yr ardal agosach ac yn cynnig mesurau lliniaru i leihau'r effeithiau.

5.16 Penderfynir ar arwyddocâd posibl yr effeithiau tirwedd a gweledol drwy gyfuniad o faint posibl yr effeithiau a sensitifrwydd lleoliad y dirwedd i'r newid. Byddai’r datblygiad arfaethedig yn effeithio’n uniongyrchol ar dirwedd safle’r cais, sy’n anochel oherwydd natur chwarel lechi. Talwyd sylw i ddynodiadau'r dirwedd gyfagos, yr ardaloedd trigiannol a'r derbynyddion hamdden. Mae pellter a graddfa’r ailaliniad arfaethedig hefyd yn ffactorau allweddol, gan y bydd yn anodd gwahaniaethu, o fannau edrych ymhellach i ffwrdd, rhwng yr ailaliniad arfaethedig a’r chwarel fel y mae ar hyn o bryd.

5.17 Mae'r effeithiau posibl gweledol a thirwedd yn cynnwys cyfuniad o waith ar y safle, symudiadau cerbydau, tomeni cadw deunydd a sgrinio, wyneb noeth y graig a cholli elfennau o'r dirwedd gan gynnwys ffurf y tir a llystyfiant wrth weithio'r chwarel ac ar ôl ei hadfer. Byddai’n bosibl, fodd bynnag, leihau’r effeithiau ar y dirwedd ymhellach drwy'r gwaith lliniaru ac adfer a gynigir er mwyn cyfuno lle y mae'r gwaith o gloddio am lechi gyda'r tirlun o’i amgylch. Fodd bynnag, byddai cwtogi ar y ponciau uchaf ar ochr ddeheuol wyneb y graig sy'n cael ei gweithio yn lliniaru'n sylweddol effeithiau gweledol y gwaith, o gofio am uchder ac agosatrwydd wyneb noeth y graig yn y tirlun.

5.18 Un o’r ystyriaethau pennaf fodd bynnag yw’r 'clawdd' gogleddol y domen lechi (Tomen A - C15/1344/16/MW) sy’n bwysig i guddio nid yn unig y datblygiad ond hefyd fan prosesu’r chwarel a’r tir chwarel atodol. Yn hyn o beth, dylid sicrhau fod unrhyw ofynion tirlunio ar gyfer ochrau'r tomeni hefyd yn hyrwyddo bioamrywiaeth lleol. Mae man angori yr atyniad gwifren zip ar Domen A, sydd yn yr un ardal ddatblygu. Fodd bynnag, ni hoffai’r awdurdod weld y domen rwbel llechi yn cael ei chadw rhag ei datblygu a'r rhagdybiaeth felly yw y byddai'r domen cael ei gweithio i'r eithaf, gan gynnwys dod â deunydd i mewn i adeiladu llwyfan i'r wifren zip, yn unol a'r cynlluniau a'r rhannau o'r caniatâd cynllunio C15/1344/16/MW.

5.19 Mae’r gwaith lliniaru’n cynnwys cloddiau cuddio, cyfeiriad a chyfnodau'r gwaith, gosod y gorlwyth a’r llechfaen wedi hindreulio fel rhan o gynllun adfer y safle, cadw'r nodweddion o ddiddordeb archeolegol ac ecolegol, yn benodol;

- Cyfnodau a chyfeiriad y gwaith o gloddio am lechi er mwyn cael y defnydd gorau o ffurf bresennol y tir h.y. gweithio y tu ôl i gefnen naturiol ar ochr de-ddwyreiniol y nodwedd archeolegol (corlan ddefaid).
- Adfer yn gynnar wyneb noeth y graig ar ddiwedd pob cyfnod o dynnu'r cerrig llechi.
- Adfer yn raddol y mannau lle mae’r gwaith chwarel wedi darfod, e.e. y ‘Chwarel Werdd' uchaf ac adfer yr hen domeni llechi y tu allan i ardal y cais ond sydd o fewn terfynau’r cynllun yn gyffredinol.
- Adfer yr hen domeni llechi gan bwysleisio cadwraeth natur.

5.20 Mae’r cynigion adfer a gyflwynwyd gyda’r cynigion datblygu yn cynnwys strategaeth gyffredinol ar gyfer y safle cyfan, gan gofio am y dirwedd hanesyddol a bioamrywiaeth. Mae'r cwmni wedi cychwyn ar astudiaethau a rhaglen adfer arbenigol i gynnwys yr elfennau hyn 'Adfer Cynefinoedd Cadwraeth Gwerthfawr mewn Hen Chwareli - Prosiect Life gyda Phrifysgol Bangor’. Dim ond yn Chwarel y Penrhyn y mae llawer o’r technegau a’r sgiliau a datblygwyd drwy’r broses hon yn cael eu defnyddio. Daw pob un o’r coed, prysglwyni a’r grug, a llawer o'r glaswellt a’r blodau gwyllt, o hadau a gasglwyd yn yr ardal. Mae’r dechneg gyntaf yn golygu plannu coed mewn sachau hesian yn llawn compost gwyrdd ar lethrau'r tomeni. Os yw’n anodd mynd ar droed ar lethrau’r tomeni, teflir peli hadau, sef peli o gompost yn llawn hadau wedi dechrau egino, i lawr y llechweddau i sefydlu mewn gwahanol gilfachau. Hefyd, mae’r cynigion yn cynnwys cynllun manwl o greu ac adfer cynefinoedd sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau yn 2014, gan gynnwys:

- Creu cynefinoedd o weundir yr ucheldir, a;
- Trin wyneb y tir mewn ffordd a fydd yn sicrhau y bydd llystyfiant brodorol yn ail sefydlu,
- Plannu coed a phrysglwyni,
- Ail sefydlu ac adfer llwybrau cyhoeddus rhif 46 a 50 yng nghymuned Llandygai, gan gynnwys y rhannau a’r lefelau terfynol.

5.21 Nod y rhaglen adfer yw annog prosesau ailsefydlu naturiol ac adfer tir ar ôl ei ddifrodi gan waith chwarel. Mae rhai mannau yn y chwarel eisoes yn cael eu hadfer drwy brosesau naturiol a bydd hyn yn batrwm cadwraeth ar gyfer rhaglen reoli adfer y chwarel. Hefyd, mae llawer iawn o goed wedi’u plannu a grug wedi sefydlu ar y tomeni gogledd-ddwyreiniol ac ar ochr de-orllewinol yr wyneb sy'n cael ei weithio ar hyn o bryd yn unol â rhaglen sy'n cynnwys nifer o wahanol dechnegau plannu a mannau treialu ar gyfer sefydlu grug. Bwriad y cynllun yw cael tirwedd debyg i un Moel y Ci, gyferbyn, sef llystyfiant rhostir yn bennaf. Bydd cynigion ar gyfer adfer hefyd yn cynnwys codi wal gerrig newydd 750 metr o hyd yn lle'r hen un ar derfyn tir y Cwmni. Mae’n bwysig felly, er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun, fod y gwaith adfer yn cael ei fonitro a bod y technolegau a'r dulliau yn cael eu defnyddio mewn strategaeth gydlynol ar gyfer y safle cyfan.

5.22 Fel y dywedwyd o’r blaen, diffinnir yr ardal brosesu fel tir mwynau atodol ar gyfer dibenion Dosbarth B o Ran 19 i Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag, gall y broses adolygu gynnwys yn y rhestr o amodau'r tir mwynau atodol er mwyn cael yr un rheolaeth amgylcheddol a chynigion adfer ag ar gyfer y rhan fwyaf o’r safle. Serch y cynllun adfer a gyflwynwyd gyda'r cais, gall y rhestr amodau gynnwys cynllun adfer ar gyfer safle'r peiriannau prosesu pan ddaw'r caniatâd cynllunio ar ei gyfer i ben neu pan ddaw'r gwaith i ben, pa un bynnag a ddaw gyntaf. Byddai’n rhaid cyflwyno cais cynllunio arall a fyddai'n cael ei hystyried yn ddiduedd yn unol â gofynion polisi cynllunio ar gyfer unrhyw ddefnydd arall o safle'r peiriannau prosesu.

5.23 Casgliad yr asesiadau Tirwedd a Gweledol oedd bod effeithiau ffisegol gweledol uniongyrchol ac anuniongyrchol yr ardal gloddio arfaethedig yn amrywio o ‘Gymedrol i Ddibwys/Dim’ ac mai

ysgafn fyddai effeithiau'r cynigion ar y dirwedd hanesyddol. Er bod y safle ger terfyn y Parc Cenedlaethol, ni ystyrir y byddai'r cynigion yn effeithio'n faterol ar gymeriad tirwedd yr ardal o gofio mor agos yw rhannau eraill y chwarel, y rhai hen a rhai sy'n dal i gael eu gweithio, a'r dirwedd y mae ynddo. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri nad yw'n dymuno cyflwyno sylwadau ar y cais. Hefyd, mae'r hen chwarel yn y gogledd yn cynnwys Safle Daearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol (Strwythurau Caledonaidd, RIGS 19) nad yw'n cael ei effeithio gan gynigion yr adolygiad.

5.24 Mae Chwarel y Penrhyn wedi'i hen sefydlu ac, o ran asesiadau tirwedd a gweledol, mae'n berthnasol ystyried materion tirwedd hanesyddol a sut y gallai hynny effeithio ar olygfeydd i mewn ac allan o Barc Cenedlaethol Eryri cyfagos. Ac eithrio'r ffordd gario, mae gosodiad y tomeni rwbel a'r cloddiau sgrinio yn cuddio'r rhan fwyaf o'r gwaith. Bwriad y gweithredydd yw gadael wyneb allanol pob tomen fwy na heb fel y mae a chynnwys y datblygiad yn gyfan gwbl o fewn lle'r oedd yr hen chwarel.

5.25 Ystyrir felly, fod y cynllun adfer a'r rhestr amodau a gyflwynwyd yn ddigon i liniaru'r effeithiau gweledol a thirwedd a allai godi a'i fod yn cydymffurfio â gofynion Polisi A1, A3, B7, B8, B10, B12, B14, B18, B27, C9, C10 ac C14 o'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Mwynderau Cyffredinol a Thrigiannol**

5.26 Mae'r cynnig, yn ei hanfod, yn debyg i'r math o waith y mae'r safle wedi'i gynnal ers blynyddoedd lawer. O gofio mor fawr yw Chwarel y Penrhyn, cymharol ychydig o gwynion sy'n dod i law ac ystyrir y gall y chwarel weithio gyda'r amodau cynllunio a thrwyddedau amgylcheddol a osodwyd arni heb effeithio ar fwynderau'r ardal. Gellir dangos, felly, y gall y chwarel weithio heb amharu ar fwynderau eiddo trigiannol, gan gynnwys rhai sydd o fewn y parth byffer o 200 metr a ddynodir gan Bolisi Cynllunio Cymru a chanllawiau cynllunio mwynau cenedlaethol Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1. Hefyd, mae problemau amgylcheddol neu gwynion eraill yn cael eu dwyn gerbron grŵp cyswllt y chwarel, grŵp sydd mewn gwirionedd yn fforwm i gyfnewid barn a syniadau i'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan waith y chwarel, sef trigolion lleol a'r gymuned, yr awdurdod cynllunio mwynau a gweithredydd y chwarel.

5.27 Mae'r awdurdod wedi ymgynghori ynghylch y cais â Chyfoeth Naturiol Cymru ac ag Adran Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd ac er bod rhai materion sydd angen caniatadau a thrwyddedau ychwanegol o dan eu maes llafur penodol, ni chafwyd unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor. Ni chafwyd wrthwynebiad chwaith gan drigolion sy'n byw agosaf at y chwarel ar ôl y cyhoeddusrwydd statudol ynghylch y cais.

5.28 Ac eithrio'r cyfyngiad ar adegau chwythu a thyllu a gwaith symud pridd a osodwyd ar y caniatâd yn 2012, caniateir i'r gwaith hollti llechi a phrosesu mwynau weithio ddydd a nos. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn fanteisiol, fel rhan o'r broses adolygu, gosod amodau ar gyfer rheoli sŵn, llwch a goleuadau allanol er budd mwynderau trigiannol. Ond dylid pwysleisio y byddai cyfyngu ar yr oriau gwaith yn yr iard brosesu neu ar y tir mwynau atodol at ddibenion Rhan 19 o Atodlen 2 o'r Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 yn gyfyngiad ar yr hawl i weithio.

5.29 Mae'r cais hwn yn cadarnhau yr aseswyd yr hinsawdd sŵn ger eiddo cyfagos a bod y rhagolygon o'r lefelau uchaf o sŵn yn y dyfodol wedi'u cyfrifo yn unol â Safonau Prydeinig ac â Chanllawiau Llywodraeth Cymru. Fel gyda chaniatadau mwynau blaenorol ar y safle hwn, gosodir lefelau penodol ar gyfer y dydd a'r nos ar y gwaith yn unol â Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1:Agregau. Ymhellach, bydd gofyn i'r gweithredydd gyflwyno cynllun monitro sŵn i sicrhau y cydymffurfir â'r lefelau a nodir o dan yr amodau ac yn unol â gweithdrefnau penodol. Mae'r amodau'n nodi y dylid monitro bob 12 mis.

5.30 Mae Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1: Agregau yn cynnwys cyngor manwl ynghylch amodau cynllunio priodol i reoli effeithiau amgylcheddol gwaith chwythu mewn chwareli. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r dyddiau a'r adegau chwythu a chyfyngu ar ddirgryniadau tir. Mae'r

Nodyn yn awgrymu na ddylai dirgryniadau tir o ganlyniad i waith chwythu fod yn uwch na chyflymder brig gronynnau o 6 milimedr yr eiliad yn 95% o'r gwaith chwythu dros gyfnod o chwe mis ac na ddylai unrhyw ffrwydrad unigol fod yn uwch na chyflymder brig gronynnau o 10 milimedr yr eiliad. Y cyfyngiad o lefel dirgryniad daear sydd wedi'i nodi ar gyfer Cronfa Ddŵr Marchllyn yw 1 milimetr yr eiliad.

5.31 Mae gofynion Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 wedi'u cynnwys yn y rhestr o amodau cynllunio gan gynnwys cyfyngiadau ar amserau chwythu a thyllu fel y gosodwyd ar y caniatâd yn 2012. Fodd bynnag, wrth i dechnoleg llif weiren ddatblygu, efallai y bydd y gweithredydd yn gallu cael rhagor o ddefnyddiau gwerthfawr megis llechi toi a deunyddiau pensaernïol heb orfod chwythu a hollti cymaint ar y graig. Lle mae amodau daearegol a rhai gweithio'n caniatáu, gellir cael 60% o'r deunyddiau o wyneb y graig gyda thechnoleg llif wifren sy'n lleihau effeithiau chwythu'n sylweddol.

5.32 Mae'r asesiad ansawdd aer yn ymdrin â'r problemau a allai godi wrth gloddio am lechi ac yn ystod y gwaith o adfer a throsglwyddo llechi at y peiriannau prosesu. Nodwyd lle y gallai llwch godi ac argymhellir mesurau ymarfer gorau ar gyfer rheoli llwch fel sydd eu hangen ar hyn o bryd o dan amodau cynllunio er mwyn lleihau i'r eithaf unrhyw amharu ar leoliadau sensitif cyfagos. Aseswyd yr amodau hinsawdd lleol er mwyn dangos pa mor aml y gallai'r cynnig achosi digwyddiadau o lwch yn dianc a dangosodd asesiadau llawn $PM_{10}$ & $PM_{2.5}$ yn Chwarel y Penrhyn na fyddai'r cynnig yn torri'r Amcanion Ansawdd Aer.

5.33 Mae'r Asesiad Amgylcheddol yn cynnig y dylid cael mesurau lliniaru llwch penodol ar y gwaith ac y dylid monitro llwch ac amodau meteorolegol yn unol ag amod '20' a osodwyd ar ganiatâd 2012. Mewn ymateb i bryderon Cyngor Cymuned Llandygai, mae'r gweithredydd eisoes wedi gosod gorsaf dywydd yn Chwarel y Penrhyn i fonitro amodau'r hinsawdd a allai effeithio ar symudiad a chyfeiriad llwch yn dianc a'i effaith ar gymuned yr ardal.

5.34 Drwy osod amodau cynllunio tebyg i'r rhai a osodwyd o'r blaen ar gyfer cloddio am, a phrosesu, llechi, ystyrir y bydd y datblygiad, ei hunan neu ar y cyd â'r ardal lle caniatawyd o'r blaen i gadw a thrin rwbel, yn cydymffurfio â pholisïau A1, A3, B23, B33, B34 a D4 o'r Cynllun Datblygu Unedol (mwynderau a rheoli llygredd).

**Materion Traffig a Mynediad**

5.35 Mae'r caniatâd cynllunio presennol yn cyfyngu ar gynhyrchu agregau i 650,000 tunnell y flwyddyn. Ni fyddai'r cynnig yn arwain at fwy o symudiadau loriau mawrion. Y cyfan mae'n ei wneud yw galluogi gwireddu llawn botensial y deunydd llechi dros yr oes waith a ganiateir tan fis Rhagfyr 2032 o dan y caniatâd cyffredinol. Ni fyddai rhoi caniatâd cynllunio'n arwain at ragor o symudiadau cerbydau. Wrth ymateb i ymgynghori, cadarnhaodd adran Priffyrdd a Thraffig Cyngor Gwynedd nad oes wrthwynebiad i'r cynnig o gofio na fydd y datblygiad yn arwain at gynnydd yn nhraffig y chwarel.

5.36 Mae'r fynedfa i Gefnffordd yr A5 o safon dderbyniol a bydd traffig yn gallu mynd ar y safle drwy ran fechan o'r B4409. Cofnodwyd, fodd bynnag, fod wal Pont Tŵr (strwythur rhestredig) wedi'i difrodi (hen broblem oherwydd lle cyfyng i gerbydau droi) sy'n amlygu pryderon ynghylch diogelwch cerddwyr. Hefyd, mae llawer mwy o gerbydau ysgafn yn mynd ar y safle erbyn hyn at y wifren zip.

5.37 Mae'n rhaid, felly, ystyried y problemau diogelwch sy'n codi o ddeunydd tir anghymharus a'r symudiadau traffig i'r chwarel ac at y wifren zip. Fodd bynnag, mae problem mynediad at y wifren zip eisoes wedi derbyn sylw wrth ganiatáu'r cais cynllunio C11/1113/16/LL ac, yn fwy diweddar pan ganiatawyd estyniad o dan C15/1199/16/LL. Mae yna faes parcio penodol ar gyfer y wifren zip a darpariaeth ar y safle i gadw'r traffig i lifo, ar wahân i waith y chwarel ac ar wahân hefyd i symudiadau cerddwyr sy'n defnyddio'r weiren zip.

5.38 Cyflwynwyd asesiad cludiant i gefnogi'r cais sy'n cadarnhau mai cyfanswm symudiadau loriau yn 2013 oedd 393,125 tunnell a 369,699 tunnell yn 2014 neu 18,843 a 17,503 taith cerbyd trwm, er y dylid nodi mai yn 2006 y cynhyrchwyd fwyaf ar y safle, sef 540,000 tunnell. Daw'r asesiad cludiant i'r casgliad na fydd yna gynnydd mewn symudiadau cerbydau ac nad ystyrir y bydd y traffig a gynhyrchir gan Chwarel y Penrhyn yn amharu drwy beri oedi i yrwyr, ar gludiant cyhoeddus nac ar fwynderau beicwyr na cherddwyr. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, cadarnhaodd awdurdod priffyrdd Llywodraeth Cymru nad oedd yn bwriadu cyflwyno cyfarwyddid ynghylch y cais hwn.

5.39 Ystyrir felly fod safon y rhwydwaith ffyrdd presennol yn ddigon da i ymdrin â'r llif traffig a ddisgwylir o'r safle ac, yn amodol ar amodau priodol, bod y datblygiad felly'n cydymffurfio â Pholisi CH33 (diogelwch ffyrdd) a Pholisi CH36 (Darpariaethau Parcio Ceir) y Cynllun Datblygu Unedol.

**Hydroleg a Hydroddaeareg**

5.40 Mae'r chwarel ar dir mynyddig mewn ardal o law trwm lle mae llawer o ddŵr ffo'n llifo oddi ar wyneb y tir mewn stormydd. Mae Asesiad Amgylchedd Dŵr y Datganiad Amgylcheddol yn cadarnhau fod yn safle'n gorwedd ar strata Cambrian yn cynnwys yn bennaf Lechfaen Llanberis. Mae'r planau ffawtiau, uniadau, toriadau a holltau yn y llechfaen yn rhoi iddi hydreiddiad eilaidd o arwyddocâd bychan. Ymhellach, mae Ffurfiad Llechfaen Llanberis wedi'i ddynodi gan Gyfoeth Naturiol Cymru fel dyfrhaen Eilaidd B.

5.41 Sgri a phridd tenau sydd fwyaf ar lethrau uchaf y tir o gwmpas y chwarel ond mae llawer o ddyddodion arwynebol ar y llethrau isaf. Mae'r dyddodion arwynebol yn cynnwys dilyniant cymysg o glai neu dywod mewn mwd, gro wedi'i olchi allan a dyddodion o glogfaen a mawn. Dangoswyd fod dŵr yn cael ei ddosbarthu'n afreolaidd yn y dyddodion arwynebol, gyda symudiadau fertigol a llorweddol yn cael ei rwystro gan bresenoldeb clai o hydreiddiad isel. Ychydig iawn o ddŵr sy'n treiddio drwy'r dyddodion arwynebol, fel drwy'r ddaeareg waelodol. Mae'r deunydd brasach fel tywod a gro mewn clai yn cynnwys dŵr daear sy'n gallu llifo drwy'r dyddodion arwynebol gan greu llwybrau dŵr daear bas a chul ac eithaf cyfyng.

5.42 Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, cytunodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei bod yn debyg mai ychydig mae cyrsiau dŵr wyneb yn ei gyfrannu o gymharu â llif y dŵr dros y ddaear o gofio fod Llechfaen Llanberis wedi'i dynodi fel dyfrhaen Eilaidd B er y gallai presenoldeb cerrig tywod a dyddodion drifft arwynebol drosglwyddo dŵr daear. O gofio mor agos yw safle'r caniatâd i Ardal Gadwraeth Arbennig sy'n dibynnu ar ddŵr a chyfraniad dŵr daear i gynnal nodweddion dŵr wyneb lleol, mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n awgrymu monitro rhagor ar lefelau dŵr daear a hefyd ymchwilio i ganfod a oes yna unrhyw gyflenwadau dŵr preifat sy'n dibynnu ar ddŵr daear ac sydd heb eu cofrestru yn yr ardal a allai gael eu heffeithio gan y caniatâd. Fodd bynnag, mae'r asesiad yn cadarnhau nad oes yna unrhyw Barthau Amddiffyn Ffynonellau o fewn pedwar cilometr i'r chwarel, sef dynodiad Cyfoeth Naturiol Cymru o'r lefel gyffredinol o amddiffyniad i bob ffynhonnell dŵr yfed. Mae ymateb Cyfoeth Naturiol Cymru yn datgan ymhellach y derbynnir fod y chwarel wedi bod yn gweithio ers blynyddoedd lawer ac y byddai rhyw fath o gydbwysedd wedi'i sefydlu. Mae dŵr daear yn cael ei fonitro ar hyn o bryd yn Llyn Owen y Ddol a bwriedir parhau â'r trefniant yma nes y daw'r caniatâd i ben.

5.43 Bydd y ffrwd sydd newydd ei chreu hefyd yn dal dŵr wyneb a dŵr daear sy'n agos at yr wyneb a fyddai, fel arall, wedi rhedeg i dwll y chwarel. Bydd y ffrwd yn rhedeg i gyfres o byllau gwaddodi i ddal mwd ac yn rhannu'r dŵr i dri derbynnydd allweddol; y cwrs dŵr presennol i'r de-orllewin o'r ardal ddatblygu, y rhostir gwlyb ym mhen deheuol eithaf cymuned y gors ac i'r de-orllewin o'r ardal ail-alinio. Ond bydd y rhan fwyaf o'r dŵr yn cael ei arwain at ogledd-orllewin y gwaith ac yn cael ei ddosbarthu dros ardal ehangach i lawr y llethr o'r datblygiad.

5.44 Mae'r Asesiad Amgylcheddol yn rhoi trosolwg o'r holl system rheoli dŵr yn y chwarel ac yn cadarnhau fod system reoli dŵr Chwarel y Penrhyn yn defnyddio cyfuniad o sianelau draenio, ffosydd agored, mannau lle mae dŵr yn cael ei bwmpio a dŵr wyneb yn casglu i ddal mwd a hefyd lagwnau setlo. O ran draenio, gellir rhannu'r chwarel yn brif dwll y chwarel, yr ardal brosesu, ffordd gario'r chwarel, y tomeni rwbel a hen dwll y chwarel. Ac eithrio rhannau o'r tomeni rwbel, mae'r dŵr yn y chwarel yn cael ei gyfeirio i'r hen dwll chwarel. Mae hwn yn cynnwys llawer iawn o ddŵr ac o le iddo setlo ac mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cadarnhau fod dŵr wyneb yn rhedeg ohono drwy Fynedfa George ac i mewn i Afon Ogwen o dan ganiatâd gollwng presennol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn fodlon fod dŵr glaw sy'n disgyn o fewn terfynau safle'r cais yn dderbyniol o ran perygl llifogydd o gofio fod y safle'n gyfan gwbl o fewn parth A yn ôl y Mapiau Cynghori Datblygu sydd i ganlyn Nodyn Cyngor Technegol 15.

5.45 Ystyrir, felly, fod darparu'r ffrwd i ail gyfeirio dŵr wyneb ac efelychu'r llif o ddŵr i lawr y llethr ac i Ardal Gadwraeth Arbennig Gwaun Gynfi yn cyfarfod â gofynion Polisïau A1, A3, B29, B32 a B33 o'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Ecoleg ac Ardal Gadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eryri**

5.46 Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi trosolwg o'r arolygon ecolegol a gynhaliwyd fel rhan o'r cais ail aliniad yn 2012, gan gynnwys arolygon ac asesiadau ar gyfer llystyfiant, infertebratau, adar, ffwng, cen, moch daear, ystlumod, dyfrgwn, llygod pengrwn y dŵr a madfallod mawr cribog. O ran yr ardal ail alinio, mae'r canlyniadau'r un fath, sef bod rhai cen i'w cael ar greigiau yn yr ardal gloddio a bod yr amodau presennol yn darparu ar gyfer adleoli ond, yn gyffredinol, nad yw'r cynnig yn debyg o effeithio ar ffwng, ar fflora prin nac ar gynefinoedd. Gosodwyd amodau i liniaru effeithiau gwaith chwarel, i reoli amser tynnu pridd a gwaith ategol yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig ac ar y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a allai effeithio ar adar yn nythu ac ar ymlusgiaid ac, efallai, adfer y wal gerrig ar derfyn y safle a gafodd ei symud cyn dechrau cloddio am lechi.

5.47 I wneud iawn am golli nodweddion yn y Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, mae cynllun rheoli cynefin manwl ar 12 hectar o'r gweundir sy'n cael ei weithredu yn unol â chaniatâd 2012 ac mae manylion y cynllun wedi'i gynnwys yn y Datganiad Amgylcheddol. Mae'r ardal hon eisoes yn cynnwys rhostir gwlyb, rhostir sych a chynefinoedd glaswellt asid, sef nodweddion cymhwyso Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri. Hefyd, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd o dan ganiatâd 2000 a daw i'r casgliad fod effaith y gwaith yn cael ei gadw y tu fewn i dir presennol y chwarel. Mae cyflwr y rhostir a'r cynefinoedd i'r de o wyneb presennol craig y chwarel yn awgrymu mai ychydig o effaith y mae'n ei gael yr ecoleg o'i hamgylch. Ymhellach, mae'r Datganiad Amgylcheddol yn cynnwys asesiad ecolegol o bedwar safle ar domeni rwbel sydd â nodweddion gwahanol ac sydd wedi'u hadfer yn unol â strategaeth a gymeradwywyd ac sy'n unigryw i Chwarel y Penrhyn.

5.48 Dewiswyd y pedwar safle yn seiliedig ar y dulliau o gael llystyfiant i dyfu arnyn nhw ac yn ôl faint o amser aeth heibio ers y gwaith plannu gwreiddiol. Daw i'r casgliad fod y technegau a ddefnyddir yn gweithio'n dda a bod y tomeni mwy aeddfed yn datblygu cynefinoedd o weundir yr ucheldir mewn cyflwr ffafriol. Awgryma'r arolygon Cynefinoedd a Rhywogaethau fod y tomeni a'r tir a adferir yn weundir amrywiol sy'n cynnig cynefinoedd da i adar, mamaliaid bychan ac ymlusgiaid. Er mwyn hyrwyddo bioamrywiaeth, gellir casglu felly y dylid defnyddio'r cynllun manwl ar gyfer creu ac adfer cynefinoedd a gafodd ei gymeradwyo yn 2014 ar gyfer yr ardal gyfan. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno â'r strategaeth adfer gynyddol ar gyfer yr ardaloedd o'r hen chwarel gan ddefnyddio technegau peli hadau ac egin goed mewn cydau hesian ac yn cytuno hefyd â'r driniaeth ar gyfer y ponciau a'r graig galed yn y chwarel. Fodd bynnag, mae Cyfoeth Naturiol Cymru a Bioamrywiaeth Gwynedd yn pwysleisio mor bwysig yw atal defaid rhag pori ar y safle. Gallai defaid yn pori rwystro datblygiad y cynefinoedd yn ddifrifol.

5.49 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd yn cymeradwyo'r cynigion i gadw'r tomeni llechi ar ymyl y safle heb eu tarfu am resymau treftadaeth ddiwylliannol, mae'r rhain yn cael eu cydnabod fel

nodweddiadol a phwysig i'n hadnabyddiaeth ddiwylliannol a synnwyr o le yn lleol ac yn genedlaethol yn y rhan yma o Ogledd-orllewin Cymru. Mae'r gwaith o adfer y tomeni ar ochr gogledd-orllewin y chwarel bron wedi'i orffen ac mae'n cynnwys llawer o strwythurau archeolegol. Mae Ymgyrch Ddiogelu Cymru Wledig yn cydnabod pwysigrwydd y technolegau adfer sydd wedi'u datblygu yn y chwarel ac sy'n cadw cymeriad y Dirwedd Hanesyddol.

5.50 Bydd ffurf allanol, hanesyddol y tomeni'n cael eu cadw fel ag mae a bydd y drefn dipio'n cael ei chyfyngu i'r tir sy'n cael ei weithio'n barod ac ni fydd yn effeithio ar unrhyw un o'r mannau cyfagos sydd o ddiddordeb ecolegol.

5.51 Mae Ardal Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eryri wedi'u dewis oherwydd eu nodweddion daearegol, geomorffolegol a biolegol. Mae'n safle mawr yn cynnwys llawer o fynyddoedd ac yn ymestyn dros 20,343 hectar. Mae o ddiddordeb arbennig oherwydd ei chynefinoedd ar yr ucheldir, gan gynnwys cen a rhostir bryoffyt, rhostir mynyddig, rhostir sych, rhostir gwlyb, gorgors, sgydau a ffynhonnau, glaswelltir calchog, silffoedd llysiau a rhedyn, sgri llysieuog a chymunedau coetir llydanddail ac am ei greigiau noeth y mewndir gydag agennau llysieuog a llynnoedd heb fawr o faetholion, gyda chymysgedd o gynefinoedd eraill gan gynnwys glaswelltir asid a niwtral, corsydd, porfeydd brwyn a glaswelltir corsiog, mignenni, rhedyn a phrysgwydd a llawer iawn o nentydd ac afonydd.

5.52 Yn 2012, cynhaliodd Cyngor Gwynedd Asesiad Priodol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 ynghylch cynnig i ail alinio ac ymestyn y chwarel yn uniongyrchol i Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri a fyddai'n arwain at golli 3.7 hectar o weundir yr ucheldir. Y casgliad ar y pryd oedd na fyddai ail alinio'r ardal yn amharu ar nodweddion yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Fodd bynnag, y prif bryder ecolegol a amlygwyd yn y cais C12/0874/16/MW oedd yr effaith posibl ar gors Gwaun Gynfi, sydd i lawr llethr o'r chwarel ac o fewn y safleoedd dynodedig Safle Cadwraeth Arbennig a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Eryri. Yr effaith posibl a nodwyd oedd y byddai gwaith cloddio'r chwarel yn rhwystro dŵr daear rhag llifo i'r gors. Er mwyn lliniaru ar yr effaith yma mae ffrwd wedi'i ffurfio o gwmpas ymyl twll y chwarel i arwain y dŵr i'r llethr islaw, gan sicrhau fod y dŵr wyneb sy'n bwydo'r gors yn cael ei gadw. Mae'r ffrwd ail lenwi / gorlifo'n caniatáu i'r dŵr dreiddio i mewn i'r mawn a hefyd orlifo ar y rhostir gwlyb ac efelychu amodau naturiol.

5.53 Drwy weithredu'r gwaith lliniaru uchod gellir bod yn sicr y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fyddai'r cynnig yn amharu ar gyfanrwydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig. Daeth yr Asesiad Priodol i'r casgliad ar y pryd na fyddai'r effeithiau uniongyrchol nac anuniongyrchol yn amharu ar gyfanrwydd yr Ardal Gadwraeth Arbennig.

5.54 Fodd bynnag, mae'n bwysig monitro sut mae'r ffrwd yn gweithio a monitro hefyd y llystyfiant yng nghors Gwaun Gynfi a rhai rhywogaethau a allai ddioddef pe byddai'r rhostir gwlyb yn dechrau sychu, Mae angen gwaith adfer ar y ffrwd er mwyn iddi gydymffurfio â'r manylebion angenrheidiol a'r dyluniad a ganiateir yn y cynigion adolygu.

5.55 Felly, mae Cyngor Gwynedd, fel yr Awdurdod Cymwys at ddibenion Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'i diwygiwyd) wedi cynnal Asesiad Priodol o dan Reoliad 61, er mwyn cael sicrwydd, y tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol, na fydd y cynnig yn effeithio'n niweidiol ar gyfanrwydd yr Ardal Cadwraeth Arbennig. Y materion allweddol oedd yn cael eu cynnwys yn yr asesiad priodol yw:

- Na fydd y cynigion adolygu'n achosi colled uniongyrchol o gynefin Atodiad 1 cymunedau rhostir gwlyb,
- Dim effaith anuniongyrchol ar gynefinoedd yr orgors a rhostir gwlyb yng Ngwaun Gynfi. Y ffrwd wedi'i ddylunio i gynnal hydroleg yr Ardal Cadwraeth Arbennig.
- Colled uniongyrchol posibl o nodwedd cynefin – Adeiladu'r ffrwd liniaru wedi osgoi colli cynefinoedd y rhostir gwlyb.

5.56 Mae’r asesiad priodol yn dod i’r casgliad NA FYDD UNRHYW EFFAITH NIWEIDIOL ar Ardal Cadwraeth Arbennig Eryri, yn amodol ar gwblhau’r gwaith adfer ar y ffrwd a bod yr amodau sy’n cael eu gosod i sicrhau bod y ffrwd yn gweithio yn cael eu monitro bedair gwaith y flwyddyn. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru’n cytuno â’r asesiad yma.

5.57 Mae Cyngor Naturiol Cymru ac Adran Bioamrywiaeth Gwynedd wedi cynghori y dylid gosod amodau ar y caniatâd i dalu sylw i'r materion canlynol:

- Dal ati gyda’r strategaeth unigryw a ddatblygwyd ar gyfer tomeni rwbel llechi Chwarel y Penrhyn,
- Cynnal gwaith monitro ar y ffrwd yn unol â’r manylebion a gytunwyd rhwng Envireau Water a Chyfoeth Naturiol Cymru. Gwaith rheoli ar y ffrwd i gynnwys gofynion ei glanhau / carthu, gofynion cynnal a chadw / rheoli ac adrodd yn ôl,
- Dal ati i reoli ardal iawndal ecolegol Gwaun Gynfi yn unol â'r cynllun cymeradwy yn Atodiad 13/2 Datganiad Amgylcheddol 2016.
- Rheoli’r gwaith yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn ystod y tymor y bydd adar yn nythu a thymor gaeafgysgu ymlusgiaid oni bai y gellir profi yn ysgrifenedig na fydd y gwaith yn amharu ar adar ac ymlusgiaid.
- Rhaid atal defaid rhag pori yn y chwarel, yn enwedig yn yr ardaloedd wedi’u hadfer. Dylid codi ffensys cadarn.
- Monitro'r llif yn y ffrwd ar wahanol adegau’r flwyddyn ac asesu sut y mae’n gweithio, asesu hydroleg Gwaun Gynfi ac a oes angen unrhyw waith cynnal a chadw, i’w gytuno’n ysgrifenedig gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol a Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae’n bwysig sicrhau fod y ffrwd yn gweithio ac, os bydd gofyn, ei newid. Mae angen monitro amodau’r orgors,
- Dylid datblygu gwell system monitro llystyfiant ar gyfer ardaloedd adfer cynefin a rhostiroedd Cors Gwaun Gynfi. Argymell darparu a chytuno datganiad dull ar gyfer monitro llystyfiant, cyn ymgymryd â monitro pellach. Dylid ddarparu map yn dangos lleoliad yr holl fannau monitro.
- Diweddaru’r adroddiad cen yn dangos lleoliad creigiau sydd â chen arwyddocaol a cherrig wedi’u hail leoli. Dylid darparu map llystyfiant manwl o holl ardal y chwarel.
- Cynnal ymchwiliad o’r chwarel am rhywogaethau o blanhigion ymwthiol anfrodorol (y rhai sydd wedi’u rhestru yn atodlen 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 fel y’i ddiwygiwyd).

5.58 Nid yw’r Arolwg Cyfnodol o Chwarel y Penrhyn (ei hunan neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn debyg o effeithio’n arwyddocaol ar nodweddion yr Ardal Cadwraeth Arbennig ac ni fydd yn effeithio ar gyfanrwydd y safle. Ystyrir, felly, yn amodol ar gynllun monitro yn unol â’r amodau cynllunio, fod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ogystal â pholisïau A1, A3, B15, B16, B32, B33, C9, C14 & C17 y Cynllun Datblygu Unedol.

**Archeoleg**

5.59 Mae’r adroddiad archeolegol yn cadarnhau fod 141 o nodweddion wedi goroesi yn yr ardal astudiaeth sydd bennaf yn gysylltiedig â gwaith y chwarel yn yr 19eg a’r 20fed ganrif. Mae’r olion archeolegol cyn hanesyddol a chanoloesol a ganfuwyd yn y cais 2012 wedi cael eu harchwilio a'u hasesu'n ofalus yn unol â'r canllawiau cydnabyddedig. Fodd bynnag, mewn ymateb i'r ymgynghoriad, mynegodd Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd bryderon ynghylch y bygythiad parhaol i olion archeolegol yn yr ardal waith a ganiateir o ystyried fod hanner y safleoedd a nodwyd yng nghynllun ymchwilio archeolegol 1995 wedi’u dinistrio heb gofnod priodol.

5.60 Mae difrod a achoswyd wrth baratoi’r ffrwd ddal dŵr wedi effeithio ar ran o’r fferm gyn hanesyddol, a nodwyd sydd o bwysigrwydd cenedlaethol yn dangos yr anghydfod a allai godi rhwng dau wahanol gynllun, un ar gyfer adfer ar gyfer yr Ardal Cadwraeth Arbennig a’r llall

ynghylch diddordebau archeolegol ehangach y safle. Mae angen adolygu'r gwaith lliniaru, o gofio y gallai'r gwaith adfer sydd ei angen i sicrhau fod y ffrwd yn gweithio'n iawn gynyddu'r difrod i'r nodwedd archeolegol trwy redeg traciau mynediad dros dro dros ffiniau'r tir caeedig. Mae'n bwysig fod gwaith felly'n cael ei fonitro gan archeolegydd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw ddifrod i'r fferm cyn hanesyddol,

5.61 Mae adolygiad rheolaidd, megis y broses Adolygu Hen Ganiatadau Mwynau, yn bwysig er mwyn monitro gwaith i reoli a lliniaru pryderon archeolegol. Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn cynnig gwella'r agwedd hon ar archeoleg er mwyn cadw arwyddocâd cyfun y safle ac yn awgrymu gosod amod ychwanegol i baratoi a mabwysiadau cynllun rheoli cadwraeth archeolegol ar gyfer y chwarel, yn seiliedig ar sylwadau ac argymhellion adroddiad Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd.

5.62 Mae'r newidiadau pellach i'r amodau archeolegol a gyflwynwyd gyda'r cais yn cynnwys y canlynol:

1) Ni ddylid cynnal unrhyw waith datblygu (gan gynnwys gwaith daear neu glirio safle) nes bod manylebion ar gyfer rhaglen o waith archeolegol wedi'u cyflwyno ac wedi'u cymeradwyo'n ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Mwynau. Bydd y datblygiad yn cael ei weithredu a phob gwaith archeolegol yn cael ei wneud gan gadw'n gaeth at y manylion a gymeradwywyd.
2) Bydd adroddiad manwl o'r gwaith a'r canlyniadau archeolegol, fel sydd ei angen o dan yr amod, yn cael ei gyflwyno i, a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig gan, yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o fewn chwe mis o orffen y gwaith maes archeolegol neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag a ddaw gyntaf.
3) Ar gyfer pob cyfnod o gloddio llechi, bydd yn rhaid rhoi o leiaf 14 diwrnod o rybudd i'r Awdurdod Cynllunio Mwynau a bydd y datblygwr yn rhoi mynediad ar bob adeg resymol i gontractwr archeolegol gyda'r cymwysterau priodol i gynnal rhaglen o liniaru archeolegol yn unol â'r manylion sydd wedi'u cymeradwyo yn yr amod.
4) Ffensio safleoedd archeolegol cyf. PRN 5380, 12327, a 29989 nes y bydd rhaglen o liniaru archeolegol wedi'i chytuno a'i gweithredu gyda chymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o flaen llaw.

O gofio am y difrod a achoswyd gan y ffrwd, byddwn yn awgrymu newidiadau fel a ganlyn;

5) Gydol y datblygiad, bydd yn rhaid codi a chynnal ffens i fodlonrwydd yr Awdurdod Cynllunio Mwynau o amgylch yr ardal gan gynnwys y safleoedd archeolegol a nodir yn PRN 5380, 12327 a 29989 fel y nodir ym Mhennod 12 Ffigwr 1.4 y Datganiad Amgylcheddol. Ac eithrio lle cytunwyd o dan amod 38 uchod, ni fydd unrhyw waith yn cael ei wneud o fewn yr ardal sydd wedi'i ffensio heb ganiatâd ysgrifenedig o flaen llaw yr Awdurdod Cynllunio Mwynau a gweithredu'r rhaglen liniaru archeolegol a gytunwyd.

5.63 Roedd y cais 2012 yn cynnwys archwiliad archeolegol pellach o ardal iawndal Ecolegol Gwaun Gwynfi (*Atodiad 13/2 o Ddatganiad Amgylcheddol 2016)* sydd wedi cadarnhau fod nodweddion archeolegol yn bresennol ac y gallai fod yna ragor o dystiolaeth archeolegol yn y mawn sydd yno. Mae'r drefn reoli ecolegol ar gyfer y safle hwn yn cynnwys lliniaru ar gyfer sawl nodwedd archeolegol sydd ar eu traed, yn seiliedig ar yr ymyrraeth leiaf yn yr ardal sydd wedi'i chadw ar gyfer ei phori'n ysgafn gan ddefaid ac ar gyfer rhostir gwlyb. Awgrymir, fodd bynnag y dylid monitro a rheoli adferiad y rhywogaethau o goed brodorol er mwyn amddiffyn unrhyw archeoleg sydd ar ei draed neu wedi'i gladdu.

5.64 Disgwylir, os bydd yr iawndal ecolegol yn rheoli pori'n iawn na fydd yna fawr ddim effaith ar olion archeolegol ar eu traed nac wedi'u claddu. Does yna, felly, ddim cyfiawnhad dros werthuso ymhellach nodweddion archeolegol ar ffurf cloddio tyllau archeolegol prawf oni bai fod y drefn reoli archeolegol yn gofyn am ymyriad h.y. bod y sefyllfa'n aros yr un fath.

5.65 Yn amodol ar amod cynllunio'n gofyn am liniariad archeolegol priodol cyn ac yn ystod datblygiad, mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisïau A1, B7 & B12 o'r Cynllun Datblygu Unedig.

**Llwybrau Cyhoeddus**

5.66 Mae yna lwybrau cyhoeddus (rhifau 46 a 50 yng nghymuned Llandygai) yn croesi i'r de o'r domen rwbel ogleddol lle mae'r ffordd gario'n cysylltu ag wyneb y gwaith yn ardal brosesu'r chwarel. Yn 2002 cyflwynwyd gorchymyn cau llwybr troed cyhoeddus dros dro ar lwybrau troed Rhifau 46 a 50 o dan Adran 275 a 261 y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 er mwyn i'r gwaith barhau yn y chwarel. Roedd y gorchymyn cau i fod i redeg am 15 mlynedd ac, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, byddai gofyn i berchnogion y Chwarel adfer y llwybrau troed a'r gwyriad o rannau ohonyn nhw yn unol â Gorchymyn 2002.

5.67 Mae'r drefn dipio a'r strategaeth adfer gyffredinol ar gyfer y safle'n rhan o'r cynigion datblygu a amlinellir yn yr Adolygiad Cyfnodol. Fodd bynnag, gallai'r canlyniadau ynghylch llwybrau cyhoeddus effeithio cryn dipyn ar y gwaith, nid yn unig o ran hawliau tipio ond hefyd o ran pryderon iechyd a diogelwch pe byddai'n rhaid adfer mynediad cyhoeddus i rannau gwaith y chwarel.

5.68 Yn hanesyddol roedd y llwybrau troed yma'n cysylltu Mynydd Llandygai a thref Bethesda ac yn debyg o fod yn rhan o'r rhwydwaith llwybrau a ddefnyddiwyd gan genedlaethau o chwarelwyr. Daw cyfnod y gorchymyn cau i ben fis Chwefror 2017 ac, er mwyn gweithredu'r cynigion ar gyfer tipio ac adfer ar gyfer y safle ac i osgoi unrhyw wrthdaro a allai godi gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch, mae'r ymgeisydd yn cyflwyno achos dros ymestyn y cyfnod hyd at 31 Rhagfyr 2034, sef y dyddiad pan ddaw'r caniatâd mwynau i ben.

5.69 Wrth gydnabod pryderon y Chwarel, mae Cefn Gwlad a Mynediad Gwynedd yn pwysleisio fod y cyhoedd eisoes wedi colli defnydd o'r llwybrau yma am bron i 15 mlynedd ac yn debyg o'i golli am hyd at 17 mlynedd arall. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Welsh Slate i drafod beth arall ellid ei wneud rhag i ragor o anghydfod godi rhwng cerddwyr y llwybrau cyhoeddus a gofynion gwaith y chwarel ac i ganfod dewisiadau diogel ac ymarferol. Fel iawn am y cais yn gofyn am ymestyn Gorchymyn cau'r llwybrau tan 2034, cynigiwyd y dewis o sefydlu llwybr caniataol ger y tomeni wedi'u hadfer ar ochr gogledd-ddwyrain y chwarel. Byddai'r llwybr caniataol yn rhedeg ar hyd yr un sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i fynd at fan gadael y wifren zip ger yr hen 'Chwarel Werdd' a gellid cysylltu gyda'r ardaloedd mynediad agored ar rannau uchaf y safle.

5.70 Bydd gofyn i'r pwyllgor cynllunio felly gymryd penderfyniad i ymestyn y Gorchymyn Cau a Chreu Llwybr Troed 2002 ar gyfer llwybrau cyhoeddus Rhifau 46 a 50 sy'n croesi ardal waith y chwarel. Hefyd, gallai amod cynllunio sicrhau sefydlu llwybr caniataol mewn ardal y cytunir arni o'r chwarel. Yn amodol ar ddrafftio gorchymyn gwyro ar gostau'r ymgeisydd / gweithredydd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a darparu'r llwybr caniataol amgen, mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisi CH22 o'r Cynllun Datblygu Unedol.

**Materion Cynaliadwyedd**

5.70 Mae Ffigwr 4.2 o Bolisi Cynllunio Cymru'n cynnwys diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru lle "mae datblygu cynaliadwy'n golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, i geisio cyrraedd y nodau lles". Ymhellach, mae'r adroddiad hwn wedi asesu materion cynaliadwyedd yn y cais yn unol â'r amcan o ddatblygu cynaliadwy ym mharagraff 4.1.1 o Bolisi Cynllunio Cymru i, "alluogi'r holl bobl drwy'r byd i gyd fodloni eu hanghenion sylfaenol a mwynhau ansawdd gwell o fywyd heb amharu ar ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol" ac yn unol â'r saith nod lles sydd yn 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015' i helpu sicrhau fod pob corff cyhoeddus yn gweithio tua'r un weledigaeth o Gymru gynaliadwy.

5.71 Fel Awdurdod Cynllunio Mwynau, mae yna ddyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau fod adnoddau mwynau'n cael eu defnyddio mewn ffordd gynaliadwy ac yn gwneud cyfraniad priodol i ddiwallu gofynion yr ardal am ddeunyddiau adeiladu. Mae yna hen hanes o chwareli llechi yng Ngwynedd ac maen nhw'n dal yn elfen bwysig yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae yna lawer iawn o wahanol ddeunyddiau y gellir eu defnyddio yng ngogledd Cymru, yn enwedig cerrig igneaidd, tywod a gro a cherrig calch. Mae llawer iawn o chwareli llechi yng Ngwynedd sydd, yn draddodiadol, wedi bod yn cynhyrchu llechi toi o ansawdd ardderchog. Yn fwy diweddar mae'r gwaith wedi troi at gynhyrchu slabiau llechi pensaernïol, addurniadau adeiladu a defnyddio rwbel llechi fel agregau eilaidd yn lle'r cerrig glân traddodiadol.

5.72 Mae'r cais hwn yn ceisio sicrha y parheir a chynllun presennol sydd wedi'i ganiatáu ar gyfer gweithio lle mae digon o lechi da ar gael yn hytrach na chwilio am ddeunyddiau mewn mannau newydd neu ail ddechrau gweithio chwareli sydd wedi hen gau.

**Yr Economi**

5.73 Yn ôl Nodyn Cyngor Technegol 23, Datblygu Economaidd, dylai awdurdodau cynllunio lleol, wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio, gofio mai dim ond rhan o'r gweithgaredd yn yr economi sy'n deillio o ddosbarthiadau B1-B8. Mae'n bwysig fod y system cynllunio'n cydnabod agweddau economaidd pob datblygiad a bod penderfyniadau cynllunio yn cael eu cymryd mewn ffordd gynaliadwy sy'n cydbwyso ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n datgan ymhellach: dylai awdurdodau cynllunio lleol gydnabod tueddiadau'r farchnad a bod angen tywys datblygiad economaidd i'r mannau mwyaf addas yn hytrach na gosod rhwystrau ar eu llwybr.

5.74 Mae Chwarel y Penrhyn yn un o'r chwareli llechi hynaf yng ngwledydd Prydain, lle'r oedd llechi'n cael eu cloddio mor bell yn ôl a'r 13 ganrif, mae'n debyg. Roedd yn cyflogi 3,000 yn oes Fictoria, erbyn hyn 175 sy'n gweithio yno. Byddai'r datblygiad yn ymestyn ei hoes waith ac felly yn ymestyn hefyd gyfnod cyflogi'r gweithwyr sydd, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn dibynnu ar y chwarel. Ymhellach, byddai cadw'r gweithlu lleol yn cryfhau diwylliant, ac, yn benodol, yn cryfhau statws y Gymraeg yn y rhanbarth.

5.75 Mae'r cynnig sydd yn y cais yn hollol hanfodol i gyfraniad economaidd y cwmni yn y dyfodol. Mae'r cwmni'n cyfrannu'n uniongyrchol ac yn arwyddocaol at economi'r ardal, yn cyflogi hyd at 200 o weithwyr ond, hefyd, yn cyfrannu at swyddi mewn busnesau sy'n gysylltiedig â gwaith y chwarel neu gwmnïau sy'n darparu gwasanaeth i'r cwmni sy'n ei rhedeg. Mae'r cais yn cadarnhau trosiant blynyddol presennol y cwmni o £17 miliwn y flwyddyn gyda thua £8 miliwn yn cael ei dalu mewn cyflogau ac i gontractwyr. O ganlyniad i'r gwariant uniongyrchol hwn, rhagwelir bod y trosiant yn yr economi'n sylweddol uwch oherwydd yr effaith lluosydd.

5.76 Mae'r cynnig felly yn debygol o wneud cyfraniad positif i economi'r ardal yn unol â Pholisi Strategol 16 a Pholisi A2 i Warchod Gwead Cymdeithasol, Ieithyddol a Diwylliannol Cymunedau'r Cynllun Datblygu Unedol yn ogystal â Chanllawiau Cynllunio Atodol Gwynedd, Cynllunio a'r Iaith Gymraeg, Tachwedd 2009.

**Buddion Cymunedol / Materion Adran 106**

5.77 Mae'r cytundeb cyfreithiol Adran 106 wedi'i atodi i'r caniatâd cyffredinol, cyf C96A/0020/16/MW. Wrth benderfynu ar amodau o dan adolygiad cyfnodol, ystyrir fod llawer o'r cytundeb gwreiddiol wedi'i ddisodli'n ddiofyn gan gynnwys rhestr o amodau sydd bellach yn amherthnasol i'r gwaith, grŵp cyswllt cyfreithiol amodol a gofynion eraill gan gynnwys rheolaeth tir y tu allan i derfyn y caniatâd sydd erbyn hyn wedi'i ddynodi'n Ardal Cadwraeth Arbennig. Yr unig elfen sydd ar ôl o'r cytundeb y dylid ei hadolygu yw'r gofyniad am ddarpariaethau ariannol ar gyfer gwaith adfer pe byddai'r chwarel yn cau'n ddisymwth.

Argymhellir, felly, fod y pwyllgor cynllunio'n awdurdodi Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoeddi i gychwyn trafodaethau gyda'r cwmni gweithredu i adolygu telerau'r cytundeb cyfreithiol Adran 106.

**Ymateb i'r ymgynghori cyhoeddus**

5.78 Ni chododd trydydd parti unrhyw bryder na gwrthwynebiad mewn ymateb i'r ymgynghori ynghylch y cais yma.

## 6. Casgliadau

6.1 Mae'r cais yn cynnig set o amodau a fydd yn rhesymoli telerau'r pedwar cynllun presennol o weithio yn ogystal â'r gwaith ar y tir atodol yn Chwarel y Penrhyn. Diben yr Adolygiad Cyfnodol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yw sicrhau nad yw amodau'n mynd yn amherthnasol a rhoi cyfle i ymateb i safonau a gofynion sydd newydd eu cyflwyno. Trafodwyd ymhellach â'r ymgeisydd restr ddiwygiedig o amodau a gytunwyd ac fe'u hatodir wrth yr adroddiad hwn. Yn unol â rheoliadau cynllunio, ystyrir bod angen rhestr o amodau, perthnasol i gynllunio, perthnasol i'r datblygiad, gorfodadwy, manwl a rhesymol ym mhob agwedd. Ni fydd hawl i iawndal yn codi oni bai y byddai effaith unrhyw amod cyfyngol yn *"... niweidiol i raddau afresymol i un ai hyfywdra economaidd y gwaith neu werth y safle fel ased....*" Yn amodol ar ystyried yr holl faterion cynllunio materol eraill, ystyrir fod y datblygiad yn dderbyniol mewn egwyddor, y byddai'n cyfrannu at gyflenwad cynaliadwy o lechi yng Ngwynedd ac yn cydymffurfio a pholisi cenedlaethol, rhanbarthol a lleol gofynion cynllunio mwynau (yn benodol, Polisïau A1, A3, C9, C10, C15 ac C17),

6.2 Y materion cynllunio hanfodol yn yr achos yma yw:

i. Sensitifrwydd y tirwedd – Parc Cenedlaethol Eryri, Ardal Cadwraeth Tirwedd, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Môn a Thirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol,
ii. Effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y cynnig ar Ardal Gadwraeth Arbennig Ewropeaidd a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chynnal prawf o effeithiau arwyddocaol tebygol ac asesiad priodol o dan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010,
iii. Y gofynion i fonitro gwaith y chwarel a'i heffeithiau ar fwynderau'r ardal, h.y. effeithiau sŵn, llwch, cludiant ac oriau gweithio,
iv. Goblygiadau economaidd a chymdeithasol o barhau â chyflogaeth leol,
v. Y posibilrwydd o gyflwyno mesurau ar gyfer lliniaru yn y tymor hir yn seiliedig ar ddal i weithio am gyfnod penodol a chyfleoedd i adfer yn briodol,

6.3 Mae'n annhebyg y bydd yna unrhyw newid o bwys yn amodau gweithio'r chwarel ond efallai y bydd yna newid cymedrol i effeithiau gweledol y gwaith yng ngosodiad cyffredinol tirwedd sydd wedi'i difwyno gan waith chwarel. Does yna'r un mater o bolisi cynllunio cyffredinol sy'n peri pryder ac mae'r materion ynghylch sŵn, llwch a rheolaeth amgylcheddol wedi'u hen sefydlu ar y safle hwn ac yn cael eu trafod ymhellach yn y Datganiad Amgylcheddol. Talwyd sylw i effeithiau ar fwynderau trigiannol yn yr amodau cynllunio gan gynnwys monitro dirgryniadau chwythu, amserau chwythu, monitro lefel llwch a chynnal gorsaf fonitro feteorolegol, monitro sŵn a lefelau sŵn newydd ac oriau gweithio.

6.4 Er gwaethaf lleoliad, graddfa a dulliau gweithio un o'r chwareli mwyaf sy'n gweithio yng ngwledydd Prydain, mae effeithiau'r gwaith wedi'u cynnwys o fewn safle'r chwarel bresennol a dim ond ychydig o waith y chwarel sydd i'w weld yn amlen weledol. Ac eithrio ychydig o effaith o'r tir uwch ar ochr ogleddol y dyffryn, ni fydd y gwaith yn cael unrhyw effaith arwyddocaol o'r tu allan i'r safle - mae'r hen domeni rwbel yn helpu i'w guddio. Bwriad y gweithredydd yw gadael wyneb allanol pob tomen fwy na heb fel y mae a chynnwys y datblygiad yn gyfan gwbl o fewn lle'r oedd yr hen chwarel. Mae'n annhebyg, felly, y bydd yna unrhyw newid arwyddocaol yn amodau gwaith y chwarel, mewn mwynderau gweledol nac unrhyw effeithiau o bwys ar

osodiad y Parc Cenedlaethol nac ar gymeriad Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Dyffryn Ogwen. Ystyrir felly, fod y cynllun adfer a'r rhestr amodau a gyflwynwyd yn ddigon i liniaru' effeithiau gweledol a thirwedd posibl y datblygiad a'i fod yn cydymffurfio â gofynion Polisïau A1, A3, B7, B8, B10, B12, B14, B27, C9 ac C14 y Cynllun Datblygu Unedol.

6.5 Diffinnir yr ardal brosesu fel tir mwynau atodol ar gyfer dibenion Dosbarth B o Ran 19 i Atodlen 2 y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir 1995 (fel y'i diwygiwyd). Fodd bynnag, gall y broses adolygu gynnwys tir mwynau atodol yn y rhestr o amodau er mwyn cael yr un rheolaeth amgylcheddol a chynigion adfer ag ar gyfer y rhan fwyaf o'r safle.

6.6 Mae'r Asesiad Amgylcheddol yn rhoi trosolwg o'r holl system reoli dŵr yn y chwarel ac yn cadarnhau fod system reoli dŵr Chwarel y Penrhyn yn defnyddio cyfuniad o sianelau draenio, ffosydd agored, mannau lle mae dŵr yn cael ei bwmpio a dŵr wyneb yn casglu i ddal mwd a hefyd lagwnau setlo. Bydd y ffrwd sydd newydd ei chreu yn helpu i gasglu dŵr wyneb a dŵr daear agos at yr wyneb ac yn ei ailgyfeirio i efelychu llif dŵr i lawr y llethr i Ardal Cadwraeth Arbennig Gwaun Gynfi. Nid yw'r Arolwg Cyfnodol o Chwarel y Penrhyn (ei hunan nac ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill) yn debyg o effeithio'n arwyddocaol ar nodweddion yr Ardal Cadwraeth Arbennig ac ni fydd yn effeithio ar gyfanrwydd y safle. Ystyrir, felly, yn amodol ar gynllun monitro yn unol â'r amodau cynllunio, fod y datblygiad yn cydymffurfio â chanllawiau Polisi Cynllunio Cenedlaethol yn ogystal â pholisïau A1, A3, B15, B16, B32, B33, C9, C14 & C17 y Cynllun Datblygu Unedol.

6.7 Mae yna safleoedd o bwysigrwydd archeolegol yn ac o amgylch y chwarel a bydd yn rhaid cytuno ar gynllun lliniaru yn unol â'r amodau a / neu baratoi Cynllun Rheoli Cadwraethol i gynnwys yr adeiladau a'r strwythurau presennol sydd ar dir cyfagos i'r chwarel. Bydd yn rhaid cytuno ar drefn reoli ar gyfer yr ardal iawndal ecolegol i gadw nodweddion y rhostir gwlyb ac hefyd rhag difrodi neu effeithio ar gyfanrwydd y nodweddion archeolegol sy'n bresennol. Yn amodol ar amod cynllunio'n gofyn am liniariad archeolegol priodol cyn ac yn ystod datblygiad, mae'r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisïau A1, B7 & B12 y Cynllun Datblygu Unedig.

6.8 Bydd gofyn hefyd gymryd penderfyniad i ymestyn y Gorchymyn Cau a Chreu Llwybr Troed 2002 ar gyfer llwybrau cyhoeddus Rhifau 46 a 50 sy'n croesi ardal weithio'r chwarel. Hefyd, gallai amod cynllunio sicrhau sefydlu llwybr caniataol mewn ardal y cytunir arni o'r chwarel.

6.9 Argymhellir fod y pwyllgor cynllunio'n awdurdodi Uwch Reolwr y Gwasanaeth Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoeddi i gychwyn trafodaethau gyda'r cwmni gweithredu i adolygu telerau'r cytundeb cyfreithiol Adran 106.

- Mae'r gwaith yn cyfrannu'n arwyddocaol at economi'r ardal ac yn cyflogi hyd at 200 o bobl (Polisi Strategol 16 a Pholisi A2),
- Mae yna eiddo sensitif y tu fewn i'r parth byffer dynodedig o 200 metr (Polisi C12). Fodd bynnag gall topograffeg y safle fod yn dwyllodrus ac mae'r tomeni rwbel yn cuddio'r cynnig rhag datblygiad sensitif. Cynnwys amodau cynllunio i gyfarfod safonau modern er mwyn rhoi digon o reolaeth dros niwsans posibl effeithiau sŵn a llwch ar fwynderau'r ardal (Polisi A1, A3, B23 a B33).
- Bydd gweithredu'r gwaith adfer arfaethedig, creu a rheoli cynefinoedd a mesurau adfer a thirlunio'n lliniaru effeithiau niweidiol hir dymor ar fywyd gwyllt. Bydd y cynllun adfer ac ail sefydlu da, cymeradwy, yn cael ei baratoi ar gyfer y safle. (Polisi C14),
- Cynnal gwaith adfer ar y ffrwd yn unol â'r manylebion a gytunwyd rhwng Envireau Water a Chyfoeth Naturiol Cymru. Rheoli'r ffrwd i gynnwys ei glanhau / gofynion carthu, gofynion cynnal a chadw / rheoli ac adrodd yn ôl,
- Monitro'r llif yn y ffrwd ar wahanol adegau'r flwyddyn ac asesu sut y mae'n gweithio, asesu hydroleg Gwaun Gynfi ac a oes angen unrhyw waith cynnal a chadw, ei gytuno'n ysgrifenedig gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n bwysig sicrhau fod y ffrwd yn gweithio ac, os bydd gofyn, ei newid. Dylid datblygu gwell system monitro llystyfiant ar

gyfer ardaloedd adfer cynefin a rhostiroedd Cors Gwaun Gynfi. Polisïau A1, A3, B15, B16, B32, B33 o Gynllun Datblygu Unedig Gwynedd,

- Dal ati i reoli ardal iawndal ecolegol Gwaun Gynfi yn unol â'r cynllun cymeradwy yn Atodiad 13/2 o Ddatganiad Amgylcheddol 2016 ond cynnwys lliniaru ar gyfer nodweddion archeolegol.
- Rheoli’r gwaith yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig yn ystod y tymor y bydd adar yn nythu a thymor gaeafgysgu ymlusgiaid oni bai y gellir profi yn ysgrifenedig na fydd y gwaith yn amharu ar adar ac ymlusgiaid.
- Rhaid atal defaid rhag pori yn y chwarel, yn enwedig yn yr ardaloedd wedi’u hadfer. Dylid codi ffensys cadarn.
- Ystyrir fod safon y rhwydwaith ffyrdd presennol yn ddigon da i ymdrin â’r llif traffig a ddisgwylir o’r safle (hyd at 650,000 tunnell y flwyddyn) ac, yn amodol ar amodau priodol, mae’r datblygiad felly’n cydymffurfio â Pholisi CH33 (diogelwch ffyrdd) a Pholisi CH36 (Darpariaethau Parcio Ceir) y Cynllun Datblygu Unedol.
- Ystyriwyd y problemau diogelwch sy'n codi o ddau ddefnydd tir a allai fod yn anghymharus sef symudiadau traffig y chwarel a defnyddwyr atyniad twristaidd. Fodd bynnag, mae problem parcio wedi'i setlo drwy ganiatáu maes parcio penodol ar gyfer y wifren zip a darpariaeth ar y safle i gadw’r traffig i lifo gan gadw gwaith y chwarel a symudiadau cerddwyr sy'n defnyddio'r weiren zip ar wahân. Mae’r cynnig felly’n cydymffurfio â Pholisi CH36 o’r Cynllun Datblygu Unedol,
- O ran rheoli llif dŵr wyneb a rhwystro llygredd, mae’r cynnig yn cydymffurfio â gofynion Polisïau B32 a B33 y Cynllun Datblygu Unedol.
- Mae’r cynnig yn bodloni nodau cynaliadwyedd Polisi Cynllunio Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015,

## 7. Argymhelliad:

1) Awdurdodi Uwch Reolwr Gwasanaethau Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd i ymestyn Gorchymyn Cau a Chreu Llwybrau Cyhoeddus 2002 ar gyfer llwybrau cyhoeddus Rhifau 46 a 50.

2) Awdurdodi Uwch Reolwr Gwasanaethau Cynllunio, Amgylchedd a Gwarchod y Cyhoedd i benderfynu ar y cynllun amodau o dan ddirprwyaeth.

- Hyd y Cyfnod Gweithio 31 Rhagfyr 2032
- Gwaith a Ganiateir a Chydymffurfiad gyda'r Manylion / Cynlluniau a Gyflwynwyd.
- Darpariaeth ar gyfer dargyfeirio Llwybrau Cyhoeddus Rhifau 46 a 50,
- Oriau Gweithio ar wyneb y graig,
- Dulliau gweithio a chyfyngiadau chwythu,
- Adfer a chynllun manwl creu ac adfer cynefinoedd yn unol â manylion y cais,
- Cynllun adfer ar gyfer y safle beiriannau erbyn 31 Rhagfyr 2030,
- Adolygiad o’r gwaith bob pum mlynedd,
- Rheoli goleuadau allanol,
- Rheoli cyfyngiadau sŵn yn ystod y dydd a’r nos,
- Rheoli llwch ffo a darparu a chynnal gorsaf dywydd,
- Cadw pridd a deunydd adfer,
- Cyfyngu ar hawliau datblygu a ganiateir,
- Cyfyngu ar glirio llystyfiant ar rai adegau penodol o’r flwyddyn oni bai y gellir profi’n ysgrifenedig na fyddai’r gwaith yn amharu ar adar ac ymlusgiaid,
- Diweddaru monitro cen,
- Cynllun rheoli cynefin gweundir ar gyfer yr ardal iawndal ecolegol yn unol â’r manylion a gyflwynwyd,
- Gwaith adfer ar y ffrwd i’w wneud yn unol â’r cynllun a gyflwynwyd,
- Ffensio i’w gytuno gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol ac â Chyfoeth Naturiol Cymru,

- Monitro'r llif yn y ffrwd fel rhan o’r adolygiad blynyddol ac asesu sut y mae’n gweithio, asesu hydroleg Gwaun Gynfi ac a oes angen unrhyw waith cynnal a chadw, ei gytuno’n ysgrifenedig gyda’r Awdurdod Cynllunio Lleol ac â Chyfoeth Naturiol Cymru.
- Monitro cynefin Gwaun Gynfi,
- Cofnodi a lliniaru archeolegol,
- Arolwg a monitro rhywogaethau ymwthiol,
- Ffensio’r nodweddion archeolegol i’r gogledd o wyneb y chwarel (corlan sawl adran)